PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 466 | Chwefror 2024

**Hahav** t.10




**Cylch Meithrin Pen-llwyn** t.6



**Gari'n rheoli** t.7




# Cerdd a chrefft



## Pantomeim

Dyma ddwy o Benrhyn-coch ac un fynycha'r ysgol yma fu'n rhan o'r cynhyrchiad Cinderella– Florence Ifan, Mari Roberts a Mali Lennon.







Criw Crefft Penrhyn-coch sydd yn cyfarfod ar foreau Iau yn Neuadd yr Eglwys i weu dillad doli i blant Gofal Plant Gogerddan.




**Cerddor ifanc**

Llongyfarchiadau i Nesta Roberts, Penrhyn-coch a enillodd yr unawd chwythbrennau Bl 6 ac iau yng Ngŵyl Offerynnol yr Urdd yn Llambed. Pob hwyl ym Mathafarn.




## Offerynwyr prysur

Llongyfarchiadau i Gruffydd Rhys, Llandre ar ennill ar yr unawd pres Bl 10 a than 19 a gyda Steffan Jones, Penrhyn-coch ar y ddeuawd offerynnol Bl 10 a dan 19 yng Ngŵyl Offerynnol Urdd Ceredigion yn Llambed ar 8 Rhagfyr. Dymuniadau gorau ym Mathafarn. Nos Sadwrn 10 Chwefror 10 bu'r ddau yn chwarae deuawd wedi'i threfnu gan y cyfansoddwr a'r arweinydd bandiau pres nodedig o'r Alban, Alan Fernie, i gyfeiliant. Seindorf Arian Aber a chyda neb llai nag Alan Fernie ei hun yn eu harwain. Profiad arbennig!

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mawrth**: **Dyddiad cau** – Mawrth 8; **Dyddiad cyhoeddi** – Mawrth 20

**CHWEFROR**

**14** Nos Fercher Lleuwen Steffan – Emynau coll y werin ym Morlan am 7.30

**16** Nos Wener 'O Langeitho i'r Tŷ Gwyn': deiseb Heddwch merched Cymru 1924 – Meg Elis Cymdeithas y Garn yn y festri am 7.30

**16-18** Nosweithiau Gwener i Sul Rowndiau cyn derfynol Côr Cymru 2024 yng Nghanolfan y Celfyddydau

**19** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl hanner tymor.

**21** Nos Fercher Glyn Parry Y Cod Gwaedlyd; trosedd a chosb yng Nghymru 1660-1830 Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**21-22** Dyddiau Mercher a Iau Eisteddfod yr Urdd Cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth

**22** Nos Iau Ifor ap Glyn ac Angharad Jenkins yn Cicio'r Bar (Eurig Salisbury a Hywel Griffiths) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.45. Tocynnau: £10 Gostyngiad: £8 UMCA £5

**23** Nos Wener Delwyn Sion yn Sesiwn nos Wener yb y Llew Gwyn, Tal-y-bont am 8.00. Tocynnau: £7.00

**24** Nos Sadwrn Cinio dathlu 70 oed CFFI Tal-y-bont a'r cylch yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7.30 Tocynnau £27.50 Plant o dan 13 oed £20 Tecst 07954 127251

**29** Pnawn Iau Eisteddfod Ysgol Gyfun Penweddig o 4.00 – 6.30. Croeso i'r cyhoedd

**MAWRTH**

**1** Nos Wener Cyngerdd Gŵyl Ddewi gyda Gwawr Edwards, Seindorf Arian Aberystwyth, Sgarmes, Meibion y Mynydd a gwesteion arbennig eraill yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30 Tocynnau: £15.00 (£10.00) Trefnir gan Rotary Ardal Aberystwyth.

**1** Nos Wener Twmpath Aberystwyth yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 6.00. £6 y pen. £18 y teulu. Dawnsio yn dechrau 7.00. Plant ysgol Pen-llwyn yn canu. Dewch a bowlen a llwy eich hun. Elw tuag at CRhAPen-llwyn. Tocynnau ar werth yn yr ysgol neu wrth y drws neu ebostiwch prif@penllwyn. ceredigion.gov.uk

**2** Dydd Sadwrn Pared Gŵyl Ddewi Aberystwyth. 1.00 wrth gloc y dref Arweinydd: David Greaney

**2** Nos Sadwrn Hwyl Ddewi 2024; cawl a chân yng nghwmni Merched Soar. yn Neuadd Tal-y-bont. Gweinir cawl am 6.30; adloniant 7.30. Tocynnau: £8 i oedolion; £2 i blant

**8** Dydd Gwener Eisteddfod Ranbarth Uwchradd Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid

**8** Nos Wener Cymdeithas y Garn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda Gwenan Gibbard

**9** Dydd Iau ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid Eisteddfod Ranbarth Gynradd Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid

**12** Dydd Mawrth Gŵyl Ddawns a Theatr Uwchradd Urdd Ceredigion yn Ysgol Uwchradd Aberaeron

**12** Nos Fawrth. Cwis hwyliog dan ofal Gareth William Jones yn Neuadd Rhydypennau am 7.30. Mynediad yn £5 i gynnwys paned. Croeso i bawb. Trefnir gan ganghennau lleol Plaid Cymru.

**12** Nos Fawrth Noson Coffa, Coffi a Chwis yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch am 7.00

**12-16** Gŵyl Agor Drysau yn Arad Goch

**15** Nos Wener Cyngerdd 'byr' – "Pigion yr Eisteddfod" gan blant Ysgol Rhydypennau yn Neuadd Rhydypennau am 6:00yh, gyda 'Bingo' i ddilyn am 6:30yh. Croeso cynnes.

**23** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi yn Poppys, Capel Dewi. Cymdeithas y Penrhyn. Manylion gan Ceris Gruffudd.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


**Lluniau i'r Tincer**
Croesawn dderbyn lluniau trwy e-bost ond lle digwydd hynny dylent fod mewn fformat jpg.
**NI DDYLID EU RHOI MEWN DOGFEN WORD.**


CYMRAEG
**Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ionawr 2024

£25 (Rhif 196) Gwyneth A Edwards, Annwylfan, Pen-y-garn
£15 (Rhif 89) Llinos Evans, Dolwerdd, Dôl-y-bont
£10 (Rhif 122) Jean Davies, Cnwc y Dintir, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor. Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

**RHODD**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.
Cyngor Cymuned Melindwr £150
**Diolch i'r rhai sydd wedi ail ymaelodi am y flwyddyn nesaf.**

**Cronfa Eleri 2023**
Rhwng 1998 a 2023 derbyniodd y gronfa geisiadau am gymorth o dros £735,000 gan 355 o ymgeiswyr. Rhoddwyd cymorth i dros 200 ohonynt, gan roi cyfanswm o dros £398,000 (cyfartaledd o dros £1,000 y cais). Y cais unigol mwyaf a dderbyniwyd mewn un flwyddyn oedd am £15,000 a'r cymorth unigol uchaf a ddyfarnwyd mewn un blwyddyn oedd £7,500.

Mae natur y cynlluniau a gefnogwyd wedi bod yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at adnewyddu adeiladau; prynu offer megis cadeiriau, llwyfannau ac offer uchelseinydd; offer chwaraeon a gwella adnoddau clybiau; adeiladu meysydd chwarae i blant; prynu offer i wasanaeth papur i'r deillion; datblygu cylchgronau ysgol a phapurau bro; a myrdd o gynlluniau eraill. Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau - dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Cyfanswm y ceisiadau ar gyfer 2023 oedd £25,546. Cyfanswm y grantiau a roddwyd gan gronfa ar gyfer 2023 oedd £25,546. Diolch i Bwyllgor Cronfa Eleri am eu gwaith caled wrth benderfynu ar sut y dylai'r arian oedd ar gael (£25,642.96) gael ei ddosrannu yn unol ag amcan y gronfa o "Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu". Gweithgareddau y llwyddwyd eu cefnogi eleni oedd: Sioe Rhydypennau; Ysgol Tal-y-bont; Neuadd Tal-y-bont; Ysgol Rhydypennau; Cae Chwarae Tal-y-bont; Clwb Ieuenctid Tal-y-bont; Henoed Llandre a Bow Street; Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch; Cyngor Genau'r Glyn a Meysydd Chwarae Rhydypennau.

Bydd y gronfa ar agor i geisiadau ar gyfer y flwyddyn 2024 ddiwedd Mis Tachwedd 2024. Manylion pellach ar gael ar wefan Cronfa Eleri (cronfaeleri.cymru).

**Teulu o Ariannin**
Bu disgynyddion i John Morgan, Pwll-glas o Ariannin mewn cysylltiad â'r Tincer. Bydd chwech ar ymweliad â'r ardal ddechrau Medi. Os oes unrhyw un o'r teulu hoffai eu cyfarfod cysylltwch â'r golygydd.

**Pleidleisio**
Os nad oes gen ti ddogfen adnabod â llun i dy alluogi i bleidleisio yn Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Mai eleni, alla di wneud cais am ddim ar-lein ar ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/et… neu gyflwyno ffurflen bapur i Wasanaeth etholiadol Ceredigion.

## 30 mlynedd yn ôl



Y mis diwethaf dathlodd Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont ddeugain mlynedd eu bodolaeth; buont yn cyfarfod yn Rhydypennau rhwng 1965 a 1971 a dyma lun o'r Clwb o tua 1967, yn dathlu ym Mhlas Talgarth, Pennal. Rhes flaen: Dai James, Mrs David Owen, Mrs Idris Jones, Dilys Morgan; Ail res: Ieuan Evans, Ken Evans Joy Baker, Llinos Evans, Islwyn Hughes, Mair Hughes, Idris Jones, David Owen, Ann Fychan, Robert Williams, David Morgan. Y drydedd res: John ac Eirwen Hughes, Menna Hughes, Anthea Davies, Glenys Evans; y bedwaredd res: Aldwyth Lewis, Glenys Pugh. Y bumed res: Tegwyn Lewis, Rhys Davies, Margaret Hughes, Alun Davies, Merfyn Hughes. Y chweched res : Tom Davies, Dilwyn Jenkins, Dafydd Jenkins, Ieuan Morgan, David Jones, Arwel West, Alun Hughes a David Evans (O'r Tincer Ionawr 1994). Gweler t.19






(Lluniau: Iris Richards)

**Codi arian i Eisteddfod 2025**
Bu sawl un o ardal y Tincer yn cefnogi codi arian i Eisteddfod Urdd Maldwyn a Clwb Rotari Machynlleth bore Sadwrn 13eg o Ionawr wrth redeg neu gerdded dros y bont newydd. Bydd y bont yn agor i gerbydau yn y gwanwyn felly roedd hwn yn gyfle i redwyr a cherddwyr fynd ar y bont heb draffig.

Yn y llun wele un o redwyr y 5km sef Rob Pugh gyda Meretta Griffiths fu'n un o'r stiwardiaid am y dydd. Yn yr ail lun mae criw o gerddwyr ardal y Tincer sef Robert a Delyth Jenkins, Delyth Griffiths, Ceris Jones a Carwen Fychan

# Bow Street

**Suliau'r Garn**
**10.00**
***Chwefror***
18 John Tudno Williams
25 Bugail

***Mawrth***
3 Bugail
10 Bugail
17 Bugail
24 Rhidian Griffiths
29 Y Groglith Capel Seion
31 Sul y Pasg Oedfa'r ofalaeth

**Noddfa**
*Chwefror*
18 Cyfeillach
25 Richard Lewis

*Mawrth*
3 Uno yn y Garn
10 Richard Lewis
17 Cyfeillach
24 Richard Lewis
31 Sul y Pasg Richard Lewis

**Capel y Garn**
Yn ystod mis Ionawr, arweiniwyd ein gwasanaethau gan y Parch Ddr Watcyn James a'r Dr Rhidian Griffiths. Ar Sul olaf y mis, cynhaliwyd oedfa'r ofalaeth, ac ymunwyd â'r gynulleidfa yng nghapel Pen-llwyn, dan arweiniad ein Gweinidog. Cyfarfu'r Chwiorydd bnawn Mercher, 10 Ionawr, am baned a sgwrs yn y festri. Derbyniwyd nifer dda o sypiau o stampiau oddi ar amlenni, ac aed ati i baratoi i'w hanfon at elusen i'r deillion.

Ar foreau Iau, bu'r grŵp Gwreiddiau'n cyfarfod, yn hybrid neu dros Zoom, dan



arweiniad ein Gweinidog, a pharhawyd â'r trafodaethau bywiog ar Salm 23.

Nos Iau, 18 Ionawr, aeth aelodau Cymdeithas Lenyddol y Garn ar ymweliad â'r Ganolfan Arloesi, Gogerddan. Cafwyd cyflwyniad i gefndir y Ganolfan gan Dr Steve Thomas, cyn ein tywys o amgylch yr adrannau amrywiol gan John Jones a Teleri Davies. Roedd y daith yn wir yn agoriad llygad a'r gwaith a wneir yma'n arloesol mewn sawl ffordd. I gloi noson ddifyr, mentrodd rhai i mewn i'r 'ystafell ddirgel' i gymryd rhan yn yr arbrawf blasu bwyd, ac roedd y canlyniadau'n ddiddorol iawn. Llio James oedd cadeirydd y noson, a chafwyd gair o ddiolch ar ran y Gymdeithas gan Gwynfryn Evans.

**Cydnabyddiaeth**
Dymuna Jean Davies ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer ar Noswyl Nadolig. Diolch i'r Parchedig Richard Lewis am gymryd rhan yn y gwasanaeth angladd ym Mwlchgwynt, Tregaron.

**Capel Noddfa**
Roedd Cyfeillach mis Ionawr yng ngofal Mair Lewis ac aeth a ni i fyd y dyddiaduron, dychmygol a ffeithiol. Dechreuodd ei myfyrdod gyda darlleniad o Bennod 3 Llyfr y Pregethwr. Yna, trafododd brofiadau Ann Thomas (Griffiths) fel y disgrifwyd nhw gan Rhiannon Davies Jones yn ei chyfrol *Fy Hen Lyfr Cownt*. Cyfrol enillodd Y Fedal Ryddiaith iddi yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1960. Yna, darllenodd o *Ddyddiadur Magdala* gan Y Parch Merfyn Jones a enillodd goron Eisteddfod Pontrhydfendigaid iddo yn 1990 cyn troi at ddyddiadur ffeithiol y Parch Joseph Llewelyn a ddaeth yn weinidog ar Clarach a'r Borth yn 1887. Roedd Joseph Llewelyn yn weinidog ar yr ofalaeth pan adeiladwyd capel yn y Bow Street a enwyd yn Noddfa maes o law dan ofal y Parch Irfon Evans. Ymddeolodd Joseph Llewelyn yn 1928 a bu farw yn 1932. Terfynwyd trwy ganu emyn 39: Wel dyma hyfryd fan i droi at Dduw. Maria oedd wrth yr organ.




**Menter newydd**
Dymuniadau gorau i Dylan Petche – gynt o Bow Street – ar fenter newydd, mae'n un o gyfarwyddwyr VX3 apparel sydd wedi agor siop yn Friars Walk, Casnewydd.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Cawsom noson wahanol yng nghwmni Helen Lewis. Yr oedd wedi ymddiddori mewn crochenwaith erioed a penderfynodd ei ddilyn fel gyrfa trwy ymuno a chwmni o Corris a oedd yn ei gynhyrchu a'i farchnata. Fe gafodd pawb siawns i wneud teclyn i ddala cannwyll fach. Tipyn o sbri.

Ar ddechrau'r flwyddyn fe ddaeth Dr Iolo ap Gwynn atom i siarad am Y Corff Rhyfeddol. Yr oedd yn argymell pawb i fwyta digon o ffrwythau a llysiau organig ac i ychwanegu Fitamin D drwy'r flwyddyn ac yn arbennig yn y gaeaf pan nad oedd llawer o haul.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Gwen Davies, Maes y Bryn. Geraint, Donna a'r bechgyn; Aled a Lisa, Dafydd, Mair ei chwaer yng nghyfraith a nifer o nithoedd a neiaint.

**Pen blwydd**
Pen blwydd hwyr hapus i Aled Myrddin ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar. Dymuniadau gorau efo Côr Meibion Machynlleth yng Nghôr Cymru.



**Dathlu**
Fel y nodwyd yn rhifyn Ionawr yr oedd Mr Ken Davies, Maes Ceiro, yn dathlu ei ben blwydd yn 98 ddiwedd y mis ac i nodi'r achlysur cynhaliwyd parti arbennig yng Nghapel Soar, Llanbadarn Fawr, wedi'r oedfa brynhawn Sul y 28in o Ionawr. Bu'n achlysur cymdeithasol gwerthfawr ac mae'n werth nodi bod oedran y rhai oedd yn bresennol yn amrywio o 10 i 98.



# Clwb Gwawr y Pennau

Cafodd Clwb Gwawr y Pennau eu cinio blynyddol yn Libanus,y  Borth ym mis Ionawr. Cafwyd pryd blasus iawn a braf oedd cael cymdeithasu ar ddechrau blwyddyn newydd



# Cerddwyr Rhydypennau

Diwrnod braf am daith wythnosol cerddwyr Rhydypennau ar 30 Ionawr. Cafwyd taith hamddenol ar draciau wyneb caled o stad Glanyrafon at ymylon Aberystwyth cyn dychwelyd drwy Lanbadarn.



# Côr Cymru nôl yn Aberystwyth

Ganol Chwefror, bydd nifer o gorau Cymru'n teithio i Aberystwyth ar gyfer rowndiau cyn-derfynol Côr Cymru 2024. Mae'r gystadleuaeth yn cychwyn ar nos Wener Chwefror 16eg gyda'r Corau Ieuenctid. Tro'r corau sioe a'r corau cymysg fydd hi ar Sadwrn Chwefror 17eg gyda'r corau plant a'r corau lleisiau unfath ar Sul Chwefror 18ed. Dyma gyfle i chi gael penwythnos o ganu corawl safonol AM DDIM yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth.Os hoffech chi fod yn rhan o'r gynulleidfa, cysylltwch â corcymru@rondomedia.co.uk neu ffoniwch 029 2022 3456.

# Colofn Difyrion Digidol

**DEIAN AP RHISIART**

Mae iechyd meddwl yn bwnc perthnasol i bawb ohonom ac mae gofalu am ein iechyd meddwl yn aruthrol o bwysig er mwyn hybu iechyd a llesiant yn gyffredinol. Ein gwaith ni yn Cymunedau Digidol Cymru yw dangos manteision y digidol i hybu iechyd a lles. Un wefan sy'n cyflawni hynny'n dda yw Meddwl.org ble ceir cefnogaeth, gwybodaeth a phrofiadau pobl am iechyd meddwl – i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg. https://meddwl.org/. Ceir adran o fewn y wefan yn rhannu profiadau mewn erthyglau difyr ac addysgiadol, er enghraifft, mae Non Parry o fand poblogaidd Eden wedi ysgrifennu blog dan y teitl 'Heddiw':

"Nes i gyflwyno'n hun i Meddwl am y tro cyntaf nôl yn mis Mawrth 2018. Roedd y Non yna dal i frwydro gorbryder dyddiol, iselder ag odd hi di blino…riiiili wedi blino trio just bod yn fi."

O blith yr eitemau dan yr adran greadigol yw cerdd deimladwy i bobl sy'n chael hi'n anodd yn ystod y Nadolig, gan Elin Angharad Davies - *'Mae'n iawn'*:

Mae'r adran newyddion yn cynnwys y diweddaraf o ran y digwyddiadau sydd ar y gweill i hybu neu godi arian at gyflyrau iechyd meddwl. Stôr o wybodaeth werthfawr tu hwnt yw'r adran ar anhwylderau sy'n mynd at wraidd y gwahanol gyflyrau fel panig, iselder ac anhwylderau bwyta ac ati.

Yn ychwanegol, fel restrir y triniaethau gwahanol sy'n bodoli fel cwnsela Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a Therapi Grŵp i gynorthwyo pobl gyda'u iechyd meddwl. Fe ellir hefyd gysylltu gyda'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y wefan er mwyn rhannu eich profiadau chi mewn erthygl.

Gwefan arall sy'n llawn o straeon pobl yn ymwneud â iechyd meddwl yw *Nerth dy ben*. https://nerthdyben.cymru/

Cafodd Alaw Llwyd Owen sy'n wreiddiol o Landdoged yn sir Conwy ddamwain car ddifrifol yn 2018. Un o'r pethau a benderfynodd Alaw wneud wrth wella o'i hanafiadau oedd sefydlu'r platfform hwn sydd yn anelu "i hybu sgwrs a chodi ymwybyddiaeth am nerth y meddwl." Mae'r wefan yn bodoli i "ysbrydoli ein cymunedau i rannu'n cryfderau ac i ddathlu'r hyn sy'n ein gwneud ni'n unigryw fel unigolion ac fel cymuned."

Mae Nerth Dy Ben yn ymgyrch i "ysbrydoli'n cymuned ac unigolion i rannu'n cryfderau, i gydnabod y petha' dan ni'n gallu eu cyflawni ac i ddathlu'r hyn sy'n ein gwneud ni'n unigryw."

Ceir dolenni hefyd am wasanaethau cefnogol sy'n cynorthwyo pobl gyda'u iechyd meddwl.

Mae'r gwefannau hyn yn hanfodol i siaradwyr Cymraeg sy'n teimlo dan straen neu'n pryderu am eu iechyd meddwl.  Y mae'n gyfle i rannu profiadau neu ddysgu gan eraill. Felly, ewch da chi i'w gweld!

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Chwefror*
18 2.30 Jamie Medhurst
25 2.30 Rhidian Griffiths ym Methel

*Mawrth*
3 2.30 Oedfa gymun Peter Thomas
10
17 2.30 Peter Thomas
24 10.30 Beti Griffiths
31 Sul y Pasg Wyn Morris 2.30 ym Methel

**Genedigaeth**
Ar 31 Awst mab i Harriet Billingsley ac Evan Neale-Gordon, - Abel Douglas. Brawd i Noah, Llion a Llŷr. Wŷr i Sue a David Billingsley, Dôl-y-bont a Moya a Tony, Capel Bangor.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Dorothy Davies (Dolly) ar farwolaeth ei gŵr John Samuel Davies' (John y Plymar) yn Ysbyty Tregaron ddydd Sul 31 Rhagfyr. Cynhaliwyd yr angladd ar 22 Ionawr yn Amlosgfa Aberystwyth.

Hefyd â Jackie a Gwyn James a'r teulu, Glanceulan, ar farwolaeth chwaer Jackie yn Macclesfield yn ddiweddar.

**Diolch**
Dymuna Mrs Dorothy Davies (Dolly) ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati ar ôl colli ei gŵr John (y Plymar). Diolch hefyd i Mr Selwyn Evans a'r Parchg Peter Thomas am eu gwasanaeth ar ddydd yr angladd.

**William H. Howells (1953–2024), Rhyd-y-gof**
Bu farw William yn dawel yn ei gartref ddydd Mercher 17 Ionawr. Drwy gydol misoedd ei salwch roedd yn hynod ddiolchgar i holl weithwyr y gwasanaeth iechyd a fu'n gofalu amdano. Roedd yn werthfawrogol o'r gofal a gafodd yn Adran Oncoleg Ysbyty Singleton, a chan feddygon a staff Ysbyty Bronglais a Meddygfa Ystwyth. Bu'r nyrsys cymunedol, dan arweiniad y Chwaer Yvonne Thomas, yn fawr eu gofal ohono ac roedd eu hymweliadau dyddiol yn codi ei galon bob amser. Gwerthfawrogir pob cyfraniad a dderbyniwyd er cof amdano i hwyluso eu gwaith gwerthfawr hwy dros gleifion yn y gymuned.

Dymuna Glenys a Meilyr ddiolch am yr holl garedigrwydd a chonsýrn a brofwyd ganddynt yn ystod y misoedd diwethaf, a phob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch o galon i'r Parchg Peter M. Thomas am ei ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn ac am y gwasanaethau cysurlon ddydd yr angladd, yn Horeb ac yn yr Amlosgfa.

Diolch hefyd i Ymgymerwyr D.J. Evans am y trefniadau gofalus.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Nia Mai Davies, Awel y Coed a Geraint Evans, Aber-porth ar eu dyweddiad ar y cyntaf o Ionawr 2024.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Sion a Dylan James a'u teuluoedd ar farwolaeth eu tad Richie 'Y Bara' James ar 22 Ionawr yn Ysbyty Bron-glais.

Cynhaliwyd yr angladd dydd Mercher 7 Chwefror yn Amlosgfa Aberystwyth; derbynnir rhoddion er cof tuag at Gymdeithas Alzheimer d/o D J Evans.

**Eglwys Penrhyn-coch**
Cynhelir Noson Goffa, Coffi a Chwis yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch am 7 o'r gloch ar nos Fawrth 12ed Mawrth 2024. Croeso cynnes i bawb.

## EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH 19-20 EBRILL 2024

**Testunau Cartref**
Dyma destunau llên yr Eisteddfod; y beirniad yw Ivoreen Williams, Saron, Rhydaman a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu e-bost i Ceris. Gruffudd@gmail. com cyn 2 Ebrill 2024.

1. Cadair: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 50 llinell –'Lleisiau'. (Cadair fach a £50.00) Er cof am Ifan ac Aeronwy James,Cae Mawr, a Cerys Webber, yn rhoddedig gan y teulu.
2. Englyn yn cynnwys enw unrhyw lyn. (£10.00)
3. Telyneg: 'Llonyddwch'. (£10.00)
4. Limrig yn cynnwys y llinell: "I'r Borth aeth Wil i ymdrochi'. (£10.00)
5. Cerdd yn ymwneud â Byd Natur. (£10.00)
6. Brawddeg: GWLEIDYDDION. (£10.00)
7. Stori Fer – wedi ei seilio ar unrhyw ddigwyddiad mewn Ysgol Uwchradd. (£10.00)
8. Erthygl i bapur bro: Atgofion tîm pentref (pêl-droed, rygbi ayyb) NEU Hanes Eisteddfod Bentref neu Gapel nad yw'n bod mwyach. (£10.00)
9. Adolygiad o unrhyw nofel Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2023/2024. (£10.00)
10. Tlws yr Ifanc (Cerddorol) i rai dan 21 oed:


    Cyfansoddi darn cerddorol lleisiol neu offerynnol.
    Beirniad: Trystan Lewis. Y gwobrau yn rhoddedig gan Aaron ac Ashley Stephens (Tlws a £20.00)
    Gwobrwyir enillydd Tlws yr Ifanc ar y nos Wener

Plant Cylch Meithrin Trefeurig wedi mwynhau gwneud cardiau Santes Dwynwen, calonnau a bisgedi.






**Pantomeim**
Roedd yn dda gweld Sion Hurford yn cymryd rhan flaenllaw yn y pantomeim eleni - rhan Buttons. Daeth a bywiogrwydd i'r cymeriad llawn hwyl. Fel un gymerodd ran ar hyd y blynyddoedd yn y pantomeimiau roedd yn wych iddo gael cyfle i arddangos ei dalent yng nghynhyrchiad eleni. Dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol. Mae ar fin gadael ar daith i ddiddanu cynulleidfaoedd am bump wythnos tan 22 Mawrth. Fo fydd yn Llywydd Eisteddfod Penrhyn-coch nos Wener..



**Pêl-Droed Penrhyn-Coch**
**Cwpan Amatur Cymdeithas Pêl-droed Cymru 23/24**
Ionawr 20 Penrhyn-coch 3
Penrhiw-ceibr Rangers 0

**Cynghrair**
*Ionawr*
27 Cefn Albion 1 Penrhyn-coch 2
*Chwefror*
3 Llanfair 2 Penrhyn-coch 4

Eilyddion
*Ionawr*
27 Eilyddion Llanfair-ym-Muallt 2
Eilyddion Penrhyn-coch 3
*Chwefror*
3 Eilyddion Penrhyn-coch 0
Eilyddion Dolgellau 2

**Penodi'n rheolwr**
Mae'n bleser gan bwyllgor Menywod Tref Aberystwyth gyhoeddi fod Gari Lewis wedi cymryd y rôl fel Rheolwr y Tîm Cyntaf tan o leiaf ddiwedd y tymor.



# Cymdeithas y Penrhyn



Golwg newydd ar fwyd traddodiadol Cymru gawson ni gan Carwyn Graves yng nghyfarfod mis Ionawr. Mae Carwyn wedi gwneud llawer o ymchwil ar fwydydd y Cymry a'r modd y mae ein bwyd wedi newid yn sylfaenol yn ystod yr ugeinfed ganrif. Erbyn hyn mae'n ddarlithydd mewn Treftadaeth a Diwylliant Bwyd Cymru yng Nghanolfan Tir Glas Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llambed. Yn ei lyfr cyntaf, *Afalau Cymru*, aeth ati i ddangos bod hanes cyfoethog o dyfu afalau yng Nghymru er gwaetha'r gred nad oedd hynny'n wir. Ar ôl cywiro'r gamdybiaeth honno gwelodd bod angen ystyried beth oedd gwir fwydydd Cymru yn y gorffennol, heblaw am y pethau a enwir yn aml fel cennin a chig oen. Beth am gocos, llaeth enwyn, siencyn a hogen? Ac wedyn dyna'r holl fathau o wenith, barlys, ac ati, a dyfid yn gyffredin flynyddoedd yn ôl.

Mae'n trafod y pethau hyn a llawer mwy yn y gyfrol *Welsh Food Stories*. O ystyried y cyfoeth o fwydydd Cymreig oedd ar gael yn y gorffennol, y cwestiwn yw pam nad oes mwy ohonynt i'w gweld ar fwydlenni bwytai heddiw. Yr awgrym oedd bod bwydydd lleol yn cael eu hystyried fel rhywbeth ar gyfer y cartref yn unig. Y neges ar gyfer heddiw yw y gallai fod o fudd i ni sylweddoli gwerth y bwydydd cynhenid hyn unwaith eto. Bydd llyfr nesaf Carwyn sef *Tir: The Story of the Welsh Landscape*, yn cael ei gyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru ym mis Mawrth. Pris £18.99

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 21 Tachwedd 2023 yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00pm. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Eirian Reynolds. Roedd y cynghorwyr Lowri Emlyn, Delyth James, Shân James, Dai Mason, Gwenan Price, Richard Owen, a Meirion Roberts yn bresennol, ynghyd â'r Cynghorydd Sir, Caryl Gruffydd Roberts. Roedd y Clerc yn anhwylus ond yn bresennol trwy gyswllt fideo.

Materion yn codi: y clawdd ger Glanceulan/Glanstewi – wedi cael ei dorri; Dolhelyg – ailbeintio yr arwydd 20mya – heb ei wneud; y bont ger Glanceulan – yr iorwg sy'n tyfu ar y bont heb gael ei glirio; Clwb Pêl Droed – roedd y Cynghorydd Sir yn awyddus i helpu'r Clwb i gael grant i wella wyneb y maes parcio. Penderfynodd y Cyngor y byddai'n fodlon cefnogi unrhyw gais am grant.

Cynllunio: Cais A230752 – Cais i adeiladu unedau storio ger 29 Y Ddôl Fach oedd hwn. Roedd y cais wedi cael ei wrthod gan y Cyngor Sir am sawl rheswm. Roedd dirprwyaeth o wyth o drigolion Y Ddôl Fach wedi dod i'r cyfarfod a chaniatawyd iddynt fynegi eu barn am y cais. Roedd dwy agwedd i'w gwrthwynebiad i'r cais. (1) Doedden nhw ddim am weld adeiladu'r unedau ar unrhyw gyfrif gan fod y tir glas lle bwriedid codi'r unedau yn ddefnyddiol iawn i drigolion y stad, a doedden nhw ddim am ei weld yn cael ei ddatblygu. (2) Roedd cyflwr y ffordd ar y stad yn wael iawn. Doedd hi ddim wedi cael ei dibennu ers gorffen codi'r rhan gyntaf o'r stad, tua'r flwyddyn 2000. Roedd y trigolion wedi cael addewidion sawl gwaith y byddai'r gwaith yn cael ei wneud, yn sicr mor bell yn ôl â 2011, ond roedd y ffordd yn dal heb ei gorffen. Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor wedi gohebu gyda'r Cyngor Sir laweroedd o weithiau am y mater, a bod y Cyngor yn gwbl gefnogol i safbwynt y trigolion. Felly penderfynodd y Cyngor wrthwynebu'r cais presennol unwaith yn rhagor, a phwyso ar y Cyngor Sir i sicrhau fod y datblygwr yn gwella ffordd y stad i safon derbyniol.

Adroddiad y Cynghorydd Sir: Roedd Caryl wedi anfon adroddiad am ei gweithgaredd gyda'r Cyngor Sir. Ymysg pethau eraill, roedd hi wedi bod yn delio gyda phroblem baw cŵn ger yr ysgol, edrych i mewn i grantiau ar gyfer gwella wyneb maes parcio'r Clwb Pêl Droed, a hefyd gweld beth oedd cyflwr y fynedfa i stad Tan-y-berth. Roedd y tarmac yn cracio oherwydd lledaeniad gwreiddiau'r coed, a byddai angen trafod y mater gyda Tai Ceredigion.

Polisi iaith - Roedd y Cadeirydd wedi edrych eto ar bolisi iaith y Cyngor, a chymeradwywyd y polisi newydd.

Aelodaeth – Gan fod Ceri Evans yn gadael y Cyngor, etholwyd Eirian Reynolds i gymryd ei lle yn cynrychioli'r Cyngor ar Lywodraethwyr Ysgolion Penrhyn-coch a Phen-llwyn.

Yn ôl yr arfer, ni chynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ym mis Rhagfyr.

## Cyngor Cymuned **GENEUR GLYN**

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:**
cyngorcymunedgeneurglyncommunitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 22.01.2024 yn Ysgoldy Bethlehem,
Derbyniwyd 2 ymddiheuriad.
0 aelod o'r cyhoedd yn presennol.

**Trafodwyd**:

- Gwaith i trwsio Lloches Bws Dôl-y-bont ar gwaith. **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd talu Archwilio Cymru – Ffioedd Archwilio £200.

  Cadarnhawyd cyllideb a'r praesept am y flwyddyn 2024/25.

- **Parc a'r Cyrtiau Tenis**: Gwaith yn parhau i ddatblygu'r parc. Cais am rodd wedi mynd at Gronfa Eleri, disgwyl ymateb cyn mynd ati i archebu offer chwarae newydd. Trafodaethau gyda Cyngor Sir Ceredigion yn parhau yng a Les yr ardal.

- **Adroddiad gan y Cyng Hugh Hughes**: Meddygfa'r Borth wedi'i hachub.

Trafodaethau yng Nghyllideb y Sir. Trafodaethau ynghylch cau Canolfan Ymwelwyr Ynys-las a Nantyrarian gan CNC.

- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 26 Chwefror 2024 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.

Pauline Lucas: clercgeneurglyn@yahoo.com

**Annwyl Olygydd**

Uno cymunedau mewn cân

Mae Côr Gobaith – côr stryd sy'n canu dros heddwch, cyfiawnder cymdeithasol a'r amgylchedd – wedi bod wrthi'n brysur dros yr wythnosau diwethaf yn paratoi diwrnod o weithgarwch i uno cymunedau mewn cân. Y bwriad yw cynnal digwyddiad sy'n rhoi cyfle i ddysgu mwy am ddiwylliant y gymuned ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac i wneud hynny trwy gân gyda'r nod o ddatblygu cyd-ddealltwriaeth rhwng y grwpiau hyn a'r gymuned leol.

Prosiect cydweithredol gyda Chôr Un Byd Oasis – côr ffoaduriaid o Gaerdydd – yw'r digwyddiad.

Ar brynhawn Sadwrn, 24 Chwefror (1.30, Canolfan St Paul's), bydd arweinwyr y ddau gôr yn cynnal gweithdy canu gan ddysgu a rhannu caneuon o wahanol ddiwylliannau er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng ein cymunedau a dod i ddeall ein gilydd yn well.

Yn y nos wedyn (7.00,Amgueddfa Ceredigion), cynhelir cyngerdd er budd AberAid a Chanolfan Oasis yn Amgueddfa Ceredigion a fydd yn cynnwys perfformiadau gan fynychwyr y gweithdy, Côr Gobaith, Côr Un Byd Oasis ac eraill. Ariennir i diwrnod gan gyllid trwy Raglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Rydym yn fawr obeithio y bydd pobl yr ardal yn cefnogi'r digwyddiad. Fel y dywed Côr Un Byd Oasis: "Mae gennym rwydwaith hynod gefnogol o wirfoddolwyr cerddorol o'r gymuned leol ac o gymuned y ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Y canlyniad yw criw o bobl arbennig o bob rhan o'r byd yn creu cerddoriaeth gyda'i gilydd ac, o wneud hynny, caiff rhwystrau a ffiniau eu chwalu mewn modd unigryw ac arbennig iawn. Mae canu yn wirioneddol uno cymunedau."

Am unrhyw wybodaeth bellach, mae croeso i chi esbotio corgobaith@gmail.com

Diolch


Côr Gobaith

**ADOLYGIAD**

### James Mitchem *Gwyddoniadur y Pethau Pwysig Iawn* Rily, 2023. 224t. £12.99

Gwyddom oll fod plant yn chwilfrydig a'u hawch i ddysgu yn ddiddiwedd. Wel, dyma'r llyfr perffaith i ddiwallu'r awch hwnnw! Mae gwybodaeth mor bwysig i blant i ddeall y byd a'u lle ynddo, ac mae croeso bob amser i wyddoniadur mor lliwgar a deniadol â hwn.

Mae'r holl bynciau y byddech yn eu disgwyl mewn gwyddoniadur yma – y ddaear a'r gofod, y tywydd a'r tirwedd, mapiau a gwybodaeth am wledydd y byd, mamaliaid ac amffibiaid, deinosoriaid a hanes yr hen fyd, sut mae'r corff yn gweithio, yn ogystal ag ychwanegiadau difyr iawn megis rhifo a lluosi, arwyddion y Sidydd a horosgopau'r Tsieineaid. Ceir yma ddigonedd o wybodaeth a ffeithiau i sicrhau sawl sesiwn bleserus o ddarllen gyda phlant, yn ogystal â bod yn ddigon hwylus i fedru darganfod yr union dudalen wrth chwilio am bwnc arbennig.




Ond nid oes gormod o ffeithiau yma, chwaith, i orlethu'r darllen. Mae'r brawddegau byrion a'r lluniau lu yn golygu bod y darllen yn rhwydd ac yn ddifyr, ac yn wir gall hefyd fod yn ymarfer darllen da ynddo'i hun i ddarllenwyr hyderus chwech oed a hŷn.

Mae'r lluniau a gosodiad y tudalennau mor amrywiol a lliwgar, ac mae troi pob tudalen yn bleser i weld y cyfoeth gweledol gwahanol. Mae'r dyluniad yn sicr yn ychwanegu at y dysgu, er enghraifft gosod tyrau uchaf y byd yn ymyl ei gilydd i gymharu eu huchder, a'r trac rasio i'n helpu i ddeall cyflymder creaduriaid. Mae amrywiaeth y teip a'r defnydd amrywiol o brint trwm a phriflythrennau hefyd yn helpu i wneud y darllen yn haws.

Mae'r addasiad yn un clodwiw, a'r Gymraeg yn llifo'n rhwydd a naturiol. Yr unig drueni, wrth gwrs, yw bod Cymru yn cael cam mewn gwyddoniadur cyffredinol fel hwn (map y Deyrnas Unedig sydd yma, e.e. ac nid un Cymru), a gwych o beth fyddai cael gwyddoniadur cystal yn sôn am yr holl bethau pwysig am Gymru.

**Gwenllïan Dafydd**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# Cylch Cinio Aberystwyth



Ar Nos Wener, 9fed o Chwefror daeth criw da o aelodau Cylch Cinio Aberystwyth ynghyd i fwynhau noson gymdeithasol. Y lleoliad tro yma oedd Poppys yng Nghapel Dewi a diolch yn fawr iddynt am eu parodrwydd i baratoi swper ar ein cyfer. Cawsom groeso cynnes a bwyd da. Y gŵr gwadd ar y noson oedd Yr Athro Geraint Jenkins o Aberystwyth. Mae Geraint yn enedigol o Benparcau. Bu yn darlithio yn Hanes Cymru yn Mhrifysgol Aberystwyth am bum mlynedd ar hugain. Aeth ymlaen wedyn yn 1993 i swydd fel Cyfarwyddwr Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Prifysgol Cymru tan iddo ymddeol yn 2008. Mae hefyd yn Gymrawd yr Academi Brydeinig a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae wedi bod yn brysur hefyd fel awdur yn y Gymraeg a Saesneg. Bu Geraint yn Olygydd ar gyfres o lyfrau ar hanes Cymru sef Cof Cenedl. Daeth y gyfres i ben wrth i Geraint ymddeol ar ôl cyhoeddi 24 o gyfrolau. Tipyn o gamp! Mae Geraint yn gefnogwr brwd o Glwb Pêl-droed Abertawe ac fe yw awdur y gyfrol Proud to be a Swan (Y Lolfa) sef hanes Clwb Pêl-droed Abertawe 1912-2012.

Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol am filltir sgwâr Geraint - sef Penparcau. Mae yn amlwg fod yr ardal yma yn agos iawn i'w galon. Roedd clywed hanes Penparcau o'r dyddiau cynnar hyd heddiw yn ddifyr dros ben. Tybed faint oedd yn gwybod mai City Road oedd yr enw ar y brif ffordd sydd yn mynd drwy Penparcau heddiw? Nid yw cael cyfyngiadau cyflymder yn beth newydd gan fod cyfyngiad o 10 milltir yr awr mewn grym flynyddoedd yn ôl. Diolch byth fod Mark Drakeford wedi caniatáu cyfyngiad o 20 milltir yr awr i ni! Roedd llawer o'r aelodau yn gyfarwydd iawn â'r cymeriadau roedd Geraint yn sôn amdanynt. Braf deall bod caffi yr Hwb ym Mhenparcau wedi cael ei enwi erbyn hyn yn Caffi Gwenallt. Llyfr diweddaraf Geraint yw *Hiwmor Tri Chardi Llengar* (Y Lolfa) - sef Moc Rogers, Tegwyn Jones a Hywel Teifi. Cymerodd nifer o'r aelodau y cyfle i brynu y llyfr a chael ei lofnodi gan yr awdur. Siwr eu bod yn ei ddarllen yn barod! Talwyd y diolchiadau gan Hywel Wyn Jones.

Byddwn yn cwrdd nesaf ar Nos Wener, 8fed o Fawrth yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch. Croeso i aelodau hen a newydd. Cysylltwch â Huw Williams ar huw_williams1@btinternet.com

Dychwelyd i Westy'r Richmond fu hanes y Cylch Cinio yn ystod mis Ionawr. Does fawr o syndod bod y lleoliad yn ffefryn gan yr aelodau o ran ansawdd y bwyd a bod y croeso yn naturiol Gymreig a Chymraeg.

Braf oedd cael cwmni Hywel Roberts i'n diddori. Mae Hywel wedi ymgartrefu yn Bow Street ers nifer helaeth o flynyddoedd ac mae wedi cymryd ei le yn amlwg yn y gymuned yn lleol.

Cyflwynwyd y gŵr gwâdd gan y Cadeirydd Vaughan Griffiths fel person galluog, talentog mewn amryw o feysydd a chwmnïwr da.

Fe'i magwyd yn fab y Mans yn Aberteifi a chafodd ei addysg yn ysgolion y dre cyn dod i Aberystwyth i astudio'r Gymraeg a chael graddau BA ac MA cyn treulio blwyddyn yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru yn Aberystwyth

Treuliodd gyfnodau yn gweithio yn Nottingham, Brighton, Lancaster a'r Amwythig cyn dychwelyd i'w Sir enedigol ac i Goleg Llyfrgellwyr Cymru yn Aberystwyth fel aelod o staff yr Adran Astudiaethau Cymraeg ar ôl cyfnod yn Bennaeth ac yn Brifathro'r Coleg. Pan unwyd Coleg Llyfrgellwyr Cymru gyda'r Brifysgol yn 1989 cafodd Hywel ei benodi yn Bennaeth cyntaf yr adran newydd ac wedyn ei benodi yn Athro yn y Brifysgol. Bu wedyn yn gweithio i'r Swyddfa Gymreig. Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn eu tro. Mae sawl enghraifft o waith Hywel yn Ngheredigion gan gynnwys adleoli llyfrgell y dre yn Aberystwyth i adeilad newydd lle 'roedd Neuadd y Dref yn Morfa Mawr a chreu Canolfan Alun R Edwards. Roedd hefyd â rhan allweddol yn y broses o sefydlu Archif Genedlaethol Sgrin a Sain yn y Llyfrgell Genedlaethol sydd erbyn hyn yn ffynhonnell wybodaeth genedlaethol eithriadol o werthfawr.

Bu hefyd yn aelod o Gŵr Cantre'r Gwaelod (gwreiddiol) ac yn Ynad Heddwch am dros ugain mlynedd a bu ei gyfraniad ar y cyfryngau a'r byd cyhoeddi yn sylweddol.

Yn briodol iawn ar ddechrau blwyddyn aeth Hywel ar drywydd arferion, traddodiadau a dathliadau blwyddyn newydd gan sôn am ddirywiad hela calennig a fu unwaith mor boblogaidd, yr Hen Galan a Thafarn y Dyffryn Arms, Tafarn Bessie yng Nghwm Gwaun, y diddordeb newydd yn y Plygain a soniodd am yr arferion o fynd i nofio yn y môr ar ddydd Calan. Roedd Almanac Cymraeg y Cymro yn cael ei gyhoeddi gan Wasg y Tivyside a bod tua 30,000 o gopïau yn cael eu gwerthu. Hefyd 75 mlwyddyn yn ôl y cafodd Plaid Cymru ei ffurfio. Soniodd hefyd am addunedau dechrau blwyddyn ac roedd yn arfer i 80% o bobl i lunio rhestr o addunedau i'w cadw ac i'w torri gyda threigl amser.


Diolchwyd i'r siaradwr gan gymydog iddo, sef Gordon Jones, Bow Street. Eddie Jenkins, Llandre oedd enillydd y raffl Cydymdeimlwyd gyda Gwynfryn Evans ar golli ei frawd Hywel Evans, Marchlyn ,Pennal ar ddechrau'r flwyddyn.

Hysbyswyd yr aelodau ar gais Glan Davies bod Brecwast yn cael ei drefnu yn y Clwb Rygbi ar Chwefror 24ain, cyn gêm Cymru ac Iwerddon am 10.00 i godi arian ar gyfer Cancr y Prostrad. Mynediad £10. Croeso i bawb.



# HAHAV





Elusen sy'n cael ei harwain gan wirfoddolwyr yw HAHAV. Fe'i sefydlwyd yn 2014 gan grŵp o wirfoddolwyr mewn ymateb i angen dirfawr am gymorth ymhlith pobl â salwch cronig oedd yn cyfyngu ar eu bywydau, eu gofalwyr a'u teuluoedd. Mae Ceredigion yn sir wledig iawn gyda phoblogaeth sy'n heneiddio ac mae'r cysylltiad rhwng heneiddio a'r cynnydd mewn cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd e.e. canser, methiant ar y galon a dementia yn ddiamheuol. Ceredigion yn anffodus yw'r unig sir yng Nghymru heb hosbis ac mae'r gwasanaethau cymorth o ran gofal lliniarol yn annigonol yn yr ardal.

Gwasanaeth cychwynnol HAHAV oedd y gwasanaeth Cymorth yn y Cartref, oedd yn cael ei ddarparu trwy estyn allan o fewn y gymuned yn unig. Mae'r gwasanaeth hyn yn parhau yn greiddiol ac yn allweddol i'r elusen ac yn cael ei ddarparu gan dîm o wirfoddolwyr ymroddedig sy'n cyrraedd pobl ledled Ceredigion, gan flaenoriaethau'r cleientiaid sy'n wynebu 12 mis olaf eu bywyd. Mae llawer o'r cleientiaid hyn yn byw mewn ardaloedd gwledig, unig a rhai heb deulu agos o'u cwmpas. Wrth i'w salwch waethygu gallant wynebu unigrwydd eithafol ac mae'r gwasanaeth Cymorth yn y Cartref yn medru bod yn wir achubiaeth gan wella ansawdd eu bywyd yn sylweddol. Er bod y cymorth wedi ei deilwra, mae tasgau nodweddiadol yn cynnwys;

> cerdded y ci
> cwmnïaeth
> hebrwng y cleient i ddigwyddiadau cymdeithasol
> gwaith tŷ ysgafn a
> garddio.

Ambell dro bydd gofalwyr angen seibiant o'u dyletswyddau gofal a bydd un o'n gwirfoddolwyr yn medru cynnig yr amser seibiant hyn.

Erbyn hyn mae nifer o haenau i'r elusen ac fe ddaeth hi'n amlwg gydag amser bod rhai pobl eisiau ac angen man cyfarfod lle gallent gysylltu ag eraill, cael cefnogaeth gan gyfoedion a chymryd rhan mewn gweithgareddau i'w helpu i wneud y gorau o'u hansawdd bywyd.

Yn 2019 agorwyd Canolfan Byw'n Well ym Mhlas Antaron ar gyrion Aberystwyth. Nid yw'r gwasanaeth a gynigir yma wedi ei gyfyngu i unrhyw salwch penodol er y cynhelir rhai gweithgareddau ar gyfer rhai grwpiau targed e.e. Caffi Cofion, sef Clwb Dementia wythnosol ar gyfer cleientiaid a gofalwyr. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn hybu lles cyffredinol ac maent yn deillio o syniadau ac anghenion ein cleientiaid.

Mae'r elusen hefyd yn darparu gwasanaeth cwnsela swyddogol mewn profedigaeth yn rhad ac am ddim, ac mae ar gael ar unrhyw adeg yn ystod siwrne galar unigolyn. Erbyn hyn hefyd cynigir gwasanaeth estyn allan gan wirfoddolwyr, sef gwasanaeth 'Cydymaith mewn Galar' sydd wedi'i dargedu at bobl sydd yn y cyfnod 'Adfer ac Addasu' yn dilyn colli cymar neu rywun sy'n annwyl iddynt.

Mae gan HAHAV adain fasnachol hefyd; mae'r siop ar Heol y Wig yn Aberystwyth a'r Stordy Celfi ar Ystâd Ddiwydiannol Glanyrafon ac maent yn ffynonellau pwysig o gyllid i'r elusen. Mae safon uchel y rhoddion ac ymroddiad ein gwirfoddolwyr wedi helpu i adeiladu perthynas wych gyda'n cwsmeriaid sy'n dychwelyd yn gyson am ragor o fargeinion yn y siop, ac fe gewch amrywiaeth eang o ddodrefn, nwyddau trydanol a nwyddau cartref o safon; soffas, byrddau, byrddau ochr, cabinetau, dodrefn ystafell wely a chypyrddau dillad i setiau teledu a bric a brac 'vintage', retro a hynafol yn y Stordy neu Warws Celfi.

Mae holl wasanaethau HAHAV yn ddi-dâl, ond mae rhoddion o bob math yn bwysig iawn i'r elusen.

Cychwynnais yn fy swydd fel Prif Swyddog Elusen HAHAV ar yr 8fed o Ionawr felly rwy'n newydd iawn a gyda llawer iawn i'w ddysgu. Rwy'n lleol, wedi fy ngeni a'm magu yn Aberystwyth ac mae gen i lu o gysylltiadau ar draws y sir. Mae gen i hefyd brofiad o sefydlu a rhedeg cadwyn o siopau masnach llwyddiannus am 15 mlynedd, profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr ynghyd â chefndir cryf mewn marchnata a chyfathrebu.

Mae'r elusen ar drothwy cyfnod cyffrous yn dilyn llwyddiant denu arian grant i adnewyddu'r adeilad a'i wneud yn hygyrch ar gyfer ein defnyddwyr. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnig mwy o wasanaethau, cynnal digwyddiadau codi arian a hurio gofod cynadledda yn y dyfodol. Mae'n siwrne hir ac uchelgeisiol ond yn siwrne a fydd yn werth chweil i gymaint o bobl Ceredigion yn y pen draw.

Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn yr elusen. Rydym yn croesawu gwirfoddolwyr o bob math, grŵp oedran a chefndir. Rydym yn croesawu siaradwyr Cymraeg a Saesneg, ac mae amrywiaeth eang o rolau a chyfleon ar gael. Mae denu mwy o wirfoddolwyr i ymuno â ni yn rywbeth parhaus, beth bynnag yw'ch sgiliau a'ch profiad, mae yna rôl i siwtio pawb. Beth am gysylltu am sgwrs ar 01970 611550, neu ewch i'r wefan i wneud cais

Gwnewch gais nawr i wirfoddoli gyda HAHAV







**ADOLYGIAD**

## *Dr Ranj: Dysgu am Dyfu a Theimlo’n Wych – Llawlyfr i Fechgyn* Rily, 2023. 160t. £9.99

Dwi ddim yn cofio Mam a Dad byth yn eistedd i lawr efo fi a fy chwaer i gael ‘y sgwrs’ am ffeithiau bywyd a sut gawson ni ein ‘creu’. Ar un llaw, ella fasa hynny wedi bod yn eithaf defnyddiol, ond wedi meddwl yn iawn, dwi’n meddwl fasa fo wedi bod yn rhy lletchwith.
Yn y dyddia’ hynny (a dwi ddim ond yn sôn am y 90au) doeddach chi jest DDIM yn trafod rhyw yn gyhoeddus, ac yn bendant ddim efo’ch rhieni.




Dwi ddim yn cofio’n iawn sut wnes i ddod i ddeall ‘sut mae pethau yn gweithio’ ond dwi’n bendant am un peth – doedd o ddim o ganlyniad i’r gwersi ‘sex ed’ yn yr ysgol achos roedd rheiny’n anobeithiol! Mae gen i ryw gof o ffeindio gwyddioniadur reit fanwl ar y silff adra a chael agoriad llygad go iawn!

Wrth gwrs mae isio dysgu am y bioleg tu ôl i’r cyfan, ond mae llawer mwy iddi na hynny. Yn wahanol i’r llyfrau llychlyd, hen ffasiwn oedd gennym ni, mae’r llyfr deniadol, modern yma yn sôn am nifer o bynciau cyfoes fel iechyd meddwl, rhywedd, cyfryngau cymdeithasol, teuluoedd cyfunol, gorbryder, catfishing a phethau felly – llawer mwy na jest dysgu am sut mae sberm ac wy yn dod at ei gilydd (ond, ie, mi fyddwch chi’n falch o glywed fod yna ddiagramau o’r mân bethau hynny yn rhywle yn y llyfr!).

Gweld y llyfr yma wnes i yn Saesneg gyntaf, a chlywed wedyn fod Rily wedi gwneud addasiad o lyfr poblogaidd Dr Ranj Dysgu am Dyfu: Llawlyfr i Fechgyn. Mae’n bwysig nodi nad llyfr am ryw yn unig yw hwn. Mae’n cynnwys gwybodaeth am lwyth o bethau defnyddiol a difyr sydd yn ymwneud â thyfu i fyny, a’r holl newidiadau gwyllt a gwallgo’ sy’n digwydd yn ystod y glasoed. Stwff fel hylendid personol, perthnasau, chwaraeon, cadw’n iach, iechyd meddwl, seibrfwlio, ffrindiau, hormonau, emosiynau a mwy … mae’r rhestr yn parhau!

Yn siarad o brofiad, mae bechgyn yn aml iawn yn cael enw drwg am fod yn ‘blentynnaidd’ neu’n anaeddfed ynghylch materion yn ymwneud â rhyw, ond dwi’n meddwl fod hynny’n annheg braidd. Mae bechgyn eisiau dysgu am y pethau ’ma i gyd, ond mae angen iddyn nhw gael eu cyflwyno mewn ffordd sy’n mynd i apelio. Dyna’n union mae’r llyfr yma’n ei wneud.

Dwi ddim yn cofio Mam a Dad byth yn eistedd i lawr efo fi a fy chwaer i gael ‘y sgwrs’ am ffeithiau bywyd a sut gawson ni ein ‘creu’. Ar un llaw, ella fasa hynny wedi bod yn eithaf defnyddiol, ond wedi meddwl yn iawn, dwi’n meddwl fasa fo wedi bod yn rhy lletchwith. Yn y dyddia’ hynny (a dwi ddim ond yn sôn am y 90au) doeddach chi jest DDIM yn trafod rhyw yn gyhoeddus, ac yn bendant ddim efo’ch rhieni.

Dwi ddim yn cofio’n iawn sut wnes i ddod i ddeall ‘sut mae pethau yn gweithio’ ond dwi’n bendant am un peth – doedd o ddim o ganlyniad i’r gwersi ‘sex ed’ yn yr ysgol achos roedd rheiny’n anobeithiol! Mae gen i ryw gof o ffeindio gwyddioniadur reit fanwl ar y silff adra a chael agoriad llygad go iawn!

Wrth gwrs mae isio dysgu am y bioleg tu ôl i’r cyfan, ond mae llawer mwy iddi na hynny. Yn wahanol i’r llyfrau llychlyd, hen ffasiwn oedd gennym ni, mae’r llyfr deniadol, modern yma yn sôn am nifer o bynciau cyfoes fel iechyd meddwl, rhywedd, cyfryngau cymdeithasol, teuluoedd cyfunol, gorbryder, catfishing a phethau felly – llawer mwy na jest dysgu am sut mae sberm ac wy yn dod at ei gilydd (ond, ie, mi fyddwch chi’n falch o glywed fod yna ddiagramau o’r mân bethau hynny yn rhywle yn y llyfr!).

Gweld y llyfr yma wnes i yn Saesneg gyntaf, a chlywed wedyn fod Rily wedi gwneud addasiad o lyfr poblogaidd Dr Ranj Dysgu am Dyfu: Llawlyfr i Fechgyn. Mae’n bwysig nodi nad llyfr am ryw yn unig yw hwn. Mae’n cynnwys gwybodaeth am lwyth o bethau defnyddiol a difyr sydd yn ymwneud â thyfu i fyny, a’r holl newidiadau gwyllt a gwallgo’ sy’n digwydd yn ystod y glasoed. Stwff fel hylendid personol, perthnasau, chwaraeon, cadw’n iach, iechyd meddwl, seibrfwlio, ffrindiau, hormonau, emosiynau a mwy … mae’r rhestr yn parhau!

Yn siarad o brofiad, mae bechgyn yn aml iawn yn cael enw drwg am fod yn ‘blentynnaidd’ neu’n anaeddfed ynghylch materion yn ymwneud â rhyw, ond dwi’n meddwl fod hynny’n annheg braidd. Mae bechgyn eisiau dysgu am y pethau ’ma i gyd, ond mae angen iddyn nhw gael eu cyflwyno mewn ffordd sy’n mynd i apelio. Dyna’n union mae’r llyfr yma’n ei wneud.

**Addasiad o adolygiad oddi ar wefan Son am Lyfra oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.**





**Ar Gered:**
**Taith y Cnocwyr**
**Teithiau Cerdded Cymraeg i bawb**

10yb Dydd Sadwrn Chwefror 24ain
Maes Parcio Pendam, SY23 3HA

Ymunwch â Cered am daith o 2-2.5 awr llawn golygfeydd, hanes a natur ar drywydd Y Cnocwyr o gwmpas llynnoedd ac adfeilion hen bentref mwyngloddio Cwmsymlog.

Mae croeso i siaradwyr Cymraeg o bob gallu gan gynnwys dysgwyr ac unrhywun sydd am ddysgu mwy am yr ardal hon o Gymru a’r Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru:
steffan.rees@ceredigion.gov.uk

MENTRAU IAITH · cered · Mwynhau’r Gymraeg · Ceredigion

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Laurence Kelly
**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**
**Papurau dyddiol a’r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig**
**01970 828312**

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ



01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

## Colofn **Ben Lake AS**



Ar ddechrau'r flwyddyn, rydyn ni gyd yn gosod targedau newydd i'n hunain; gwneud mwy o ymarfer corff, darllen un llyfr y mis, prynu llai o ddillad. Rydyn ni'n rhoi pwysau ar ein hunain i wella'n bywydau personol, ond pwy sy'n edrych ar yr hyn sydd yn digwydd o'n cwmpas er mwyn sicrhau bod y gymdeithas rydyn ni'n byw ynddi yn ffynnu yn ystod 2024 a thu hwnt?

Yn ôl yn yr Hydref, cadarnhaodd data bod yr Afon Teifi wedi dioddef lefel uwch o lygredd nag unrhyw afon arall yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Gollyngwyd carthion i mewn i'r Afon Teifi am gyfanswm o 1,146 o ddiwrnodau rhwng 2018 a 2023 o ganlyniad i waith trin dŵr gwastraff annigonol yn Aberteifi. Mae systemau carthffosiaeth yn aml yn gorlifo yn ystod cyfnodau o law trwm a stormydd mawr. Caniateir i gwmnïau ollwng carthffosiaeth pan fydd gwastraff yn cyrraedd lefel benodol yn ystod y cyfnodau hyn, i atal y gwastraff rhag dychwelyd i gartrefi. Er hyn, gollyngwyd carthffosiaeth yn yr Afon Teifi cyn bod y lefel hon yn cael ei chyrraedd, gan wneud y weithred yn anghyfreithlon. Wrth i'r hinsawdd newid, rydyn ni'n gweld cynnydd mewn tywydd eithafol, sydd, heb os, yn mynd i effeithio ar ansawdd ein hafonydd wrth gynyddu llygredd iddynt o orlifoedd storm gan beryglu byd natur, bioamrywiaeth ac iechyd pobl.

Mae hyn yn bryder mawr i mi ac i nifer o bobl eraill. Y tristwch a'r siom yn hyn i gyd yw bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r problemau yn Aberteifi ers 2015. Er i nifer o hysbysiadau gorfodi gael eu cyflwyno ar y safle, ni chyflwynwyd unrhyw ddirwyon. Codais y mater yn ystod sesiwn y Pwyllgor Materion Cymreig yn hwyr yn 2023 i fynegi fy anniddigrwydd a chwestiynu'r Prif Weithredwr am gyfiawnder a sicrwydd ar gyfer y dyfodol. Mae Dŵr Cymru bellach wedi cyhoeddi eu bod am fuddsoddi £20 miliwn i adnewyddu gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn Aberteifi ac i uwchraddio'r seilwaith sydd yn ei lle yn barod.

Yma yng Ngheredigion, rydyn ni'n ffodus o gael arfordir trawiadol dafliad carreg i ffwrdd; arfordir sy'n rhyfeddod i ni sy'n byw yma ac i'r rhai sy'n dod yma ar eu gwyliau. Y gwir amdani yw bod diofalwch cwmnïau a chyrff llywodraethol wedi cael effaith niweidiol ar ein harfordiroedd, afonydd a chymdeithas. Mae'n bryd iddynt ddechrau cymryd cyfrifoldeb a gofalu amdanynt o ddifri er mwyn sicrhau dyfodol diogel a llewyrchus i fyd natur Ceredigion.







## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau Ionawr 18 2024 gyda'r cadeirydd Sarah Hughes yn y gadair. Croesawodd bawb i gyfarfod cyntaf 2024 a dymunodd Blwydddyn Newydd Dda iddynt. Roedd yna 6 o gynghorwyr cymuned yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Sir Rhodri Davies a thri o gynghorwyr Cymuned.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf sef mis Tachwedd 2023 fel rhai cywir.

Diolchwyd i'r cynghorwyr Jim Palmer ac Andrew Wright am addurno coeden Nadolig ar ran Cyngor Melindwr i Ŵyl Coed Nadolig Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor.

Roedd y Cyngor wedi derbyn ceisiadau am arian oddi wrth rhai mudiadau lleol ac eraill. Cafodd rhain eu trafod yn y cyfarfod. Eleni penderfynnodd y Cyngor Cymuned gefnogi Sioe Capel Bangor, Y Tincer, Y Ddolen, Merched y Wawr Cangen Melindwr, Ffrindiau Cartref Tregerddan, Ysgol Pen-llwyn, Cymdeithas Cymuned Goginan, Ambiwlans Awyr Cymru, Urdd Ceredigion a Beiciau Gwaed Cymru Aberystwyth. Rhanwyd cyfanswm o £2,000 rhwng y gwahanol fudiadau.

Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr allanol ar ddiwedd mis Rhagfyr ac mae copi ar safle we Cyngor Cymuned Melindwr.

Mae baw cŵn yn broblem yn Ward Melindwr. Gofynnir yn garedig i berchnogion cŵn i fod yn ddinasyddion cyfrifol a chodi baw eu cŵn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Chwefror 15 yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor am 7.30yh.



## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Ionawr, ac roedd y Cynghorydd Paul Hinge, y cadeirydd, y clerc a 3 cynghorydd cymuned yn bresennol.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ddiwedd Tachwedd '23 fel rhai cywir. Nodwyd:

- bod y digwyddiad pryd y goleuwyd y goeden Nadolig wedi bod yn llwyddiant. Diolch i bawb fu'n helpu.
- bod bateri diffibriliwr y neuadd bellach yn gweithio. Mae sefyllfa di-ffib i Langorwen yn dal yn cael ei drafod.
- bod parc Tregerddan ar gau nes bod asesiad o ddiogelwch yr offer wedi'i wneud; bydd yr un cwmni yn edrych ar yr offer sydd wedi torri ym mharc Bryncastell yr un pryd. **Peidiwch** â defnyddio›r offer yn y ddau le, plis, nes bod yr asesiad wedi›i gwblhau.
- bod y cyngor yn croesawu ceisiadau am grantiau am 2024/5, a bod angen cyflwyno mantolen gyda phob cais.
- bod y cyngor yn croesawu cynigion am dorri gwair parc Tregerddan a pharc Bryncastell am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2027. Dyddiad cau'r cynigion: 25 Chwefror eleni.
- bod materion yn ymwneud ag Aber Bay, Clarach, bellach yn nwylo tîm cyfreithiol y Cyngor Sir; does dim newid yn y sefyllfa.
- bod carthffosiaeth wedi bod yn broblem yn stad Tregerddan ond mae'r mater wedi'i ddatrys dros dro.
- bod y cynghorwyr am dderbyn hyfforddiant pwrpasol dros y misoedd nesaf.
- bod y cynghorwyr wedi cytuno i beidio derbyn eu lwfans, gan roi'r arian tuag at ddatblygu parc Tregerddan.

Cofiwch am hysbysfwrdd Tirymynach ger siop Spar – cadwch lygad ar y cynnwys. Mae croeso mawr i unrhyw un o'r ardal ymuno â'r cyngor cymuned. Cysylltwch â tirmynach@gmail.com er mwyn mynegi diddordeb. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 29 Chwefror.

## Llandre

**Gwobr**

Llongyfarchiadau i gwm ni Atebol am gipio gwobr "Canmoliaeth Uchel" am ap Ffrindiau Bach mewn seremoni wobryo ryngwladol Bett Global. Dyma'r unig adnodd o Gymru a ddaeth i'r brig. Gellir cael gafael yn ap unigryw yr Wyddor Gymraeg ar bob prif siop apiau ar-lein. Ewch i ffrindiau-bach.cymru am fwy o wybodaeth

Dewiswyd hefyd *Y Fainc Ffrindiau* gan Wendy Meddour, Daniel Egnéus a Manon Steffan Ros ar gyfer Llyfr y Mis! Dyma stori dyner a gobeithiol gan dîm arobryn, am wneud ffrindiau newydd ac am bwysigrwydd cyfeillgarwch.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Cynog Dafis, Cedrwydd, a'r teulu ar golli ei chwaer Jean Porteous ar 26 Ionawr ym Mhlas Cwmcynfelin.

## Dôl-y-bont

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Gerallt Evans, Pantydwn, a'r plant Kenneth, Geraint a Wendy a'r teulu ar farwolaeth Mair Evans yng Nghartref Plas y Cwm.

**Croeso**


Estynnwn groeso i Dan a Charlie Priddy a'u merch fach Eli sydd wedi symud i fyw i Tŷ Nant. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.


WEST WALES ANTIQUES CAPEL BANGOR

Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!

Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau

www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com






James Memorials

Am GOFEBAU ARBENNIG BEDDARGRAFFIADAU ADNEWYDDU O SAFON ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

james.memorials@btconnect.com

SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

01970 617120

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI

01970 867 888

# LLE MAE NHW NAWR?

Hanes dwy chwaer a brawd o gyffiniau Penrhyn-coch sydd gennym y mis hwn yn y golofn 'Ble maen nhw nawr?'. Mae'r tri wedi teithio yn helaeth ond mae'n amlwg bod y tri yn hoff iawn o'u bro enedigol ac yn dychwelyd yn rheolaidd i'r ardal i weld eu rhieni.

**LUCY HUWS**

Wedi iddi adael Ysgol Penweddig, aeth Lucy i'r Brifysgol yng Nghaeredin. Wedi iddi raddio, gweithiodd yn China, Brwsel a Hong Kong. Tra oedd yn Hong Kong, cyfarfu a'i gŵr Miles. Priododd y ddau ym 1996 a ganwyd dwy ferch iddynt - Gwenllïan a Dwynwen. Dychwelodd y teulu i Aberystwyth yn 2003, wedi i Hong Kong gael ei heintio â SARS. Cymhwysodd Lucy i fod yn athrawes ieithoedd yn 2007 ac ers 2008, mae'n gweithio yn Ysgol Pen-glais, gan ddysgu Mandarin yn bennaf. Derbyniodd Gwenllïan a Dwynwen eu haddysg gynradd yn Ysgol Gymraeg, Aberystwyth, a'u haddysg uwchradd yn Ysgol Penweddig. Graddiodd Gwenllian o goleg celf Camberwell, ac mae'n gweithio ar hyn o bryd i'r Orsaf, hwb cymunedol ym Mhen-y-groes, Dyffryn Nantlle. Astudiodd Dwynwen feddygaeth ac mae nawr yn gweithio i ysbyty Prifysgol Ayr yn yr Alban. Mae'r teulu yn cadw cysylltiad agos gyda Phenrhyn-coch gan fod nain a taid yn byw yno.



Teulu Huws yn dathlu pen blwydd 90 Helga Huws yn ddiweddar

**HANNA HUWS**

Teithiodd Hanna at ei chwaer Lucy yn Tsieina yn wreiddiol, ar ôl graddio yn St Andrews. Ond arhosodd wedyn yn Hong Kong am dros ddegawd gan briodi a chael dau fab a merch, cyn dychwelyd i Gymru a lle ganwyd y ferch ieuengaf. Mae'n diolch i S4C a'i mam am recordio'r fideos animeiddio Cymraeg fu'n allweddol i fagu'r plant yn y Gymraeg dramor. Dilynodd gyrfa barhaus yn cyfathrebu, boed yn dysgu, golygu llyfrau addysgol a chylchgronau, neu yn cydlynu cyhoeddiadau a chyswllt y wasg yn Hong Kong a wedyn ar ôl dychwelyd i Gymru. Roedd ei gŵr yn cyfarwyddo ffilmiau yn HK ond yng Nghymru, o weld costau gofal pedwar o blant, arall-gyfeiriodd gan ysgwyddo'r prif faich fel cogydd a gofalydd, gan alluogi Hanna i barhau a gyrfa brysur oedd yn cynnwys hyrwyddo cyfle cyfartal i ferched, a manteision y Gymraeg a dwyieithrwydd. Ei swydd gyfredol yw hyrwyddo ymwybyddiaeth am bwysigrwydd adfer mawndiroedd i daclo'r argyfyngau natur a hinsawdd. Wedi ymgartrefu ym Môn, dychwela'n rheolaidd i Benrhyn-coch at ei rhieni, sy'n dotio at gael gweld yr wyrion pan nad ydynt hwy yn eu tro yn teithio'r byd.

**ANDREAS HUWS**

Ganwyd Andreas yn yr hen olchdy yn Nhyddyn Seilo, Penrhyn Canol, a oedd wedi'i addasu erbyn hynny. Derbyniodd ei addysg gynradd ac uwchradd yn ysgolion Trefeurig a Phenweddig. Graddiodd o Brifysgol Lerpwl, lle bu'n astudio gwleidyddiaeth a hanes. Wedi iddo raddio, bu'n gweitho a theithio dramor, cyn dychwelyd i Brifysgol Aberystwyth lle cymhwysodd yn athro, gan arbenigo yn bennaf ym maes anghenion dysgu arbennig a rhaglenni ymyrraeth addysgiadol. Bu'n bennaeth ar ddwy ysgol arbennig, ac ers 2014 hyd heddiw mae'n bennaeth Canolfan Addysg Y Bont, Llangefni, Sir Fon sydd yn darparu addysg a gofal i blant a phobl ifanc 3-19 oed yr ynys sydd ag anghenion ychwanegol dwys a chymhleth. Mae'n dad i dri o feibion, Gruffydd, Llyr a Taliesin. Mae Penrhyn-coch, Pen-bont Rhydybeddau ac ardal y Tincer yn agos iawn i'w galon, ac mae'n dychwelyd yn aml i'w fro enedigol.









ADOLYGIADAU

## Dathlu cyhoeddi Cyfansoddiadau Eisteddfod yr Urdd 2022 a 2023


***I Dynnu ar yr Edau*** 2023 240t. £9.99 (llyfr) £7.50 (e-lyfr)

Mae'r Urdd yn falch o gyhoeddi fod copïau o *I Dynnu ar yr Edau* – cyfrol o gyfansoddiadau buddugol Adrannau Llenyddol Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022 a Sir Gaerfyrddin 2023 – bellach ar gael yn eich siop lyfrau leol, ar wefan yr Urdd ac ar ffurf e-lyfr. Yn addas iawn, tri o gyn-enillwyr Eisteddfod yr Urdd sydd wedi golygu'r gyfrol, sef Ciarán Eynon (Prifardd Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022), Twm Ebbsworth (Prif Lenor Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022) a Tegwen Bruce-Deans (Prifardd Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023).

Dylunydd ifanc, Lleucu Elisa Jenkins (a chyn-brentis i'r Urdd) sydd hefyd yn gyfrifol am gasgliad o ddarluniau sy'n cyd-fynd gyda'r cynnwys. Disgrifir *I Dynnu ar yr Edau* fel "cyfrol o weithiau creadigol" yn hytrach na chyfansoddiadau traddodiadol.


"Mae wir yn bleser cyflwyno'r gyfrol hon o waith plant a phobl ifanc Cymru," meddai Twm Ebbsworth. "Yn hytrach na chyflwyno'r gweithiau buddugol fesul categori cystadlu, rydym wedi bwrw ati i geisio creu cadwyn o waith, gyda'r darnau'n esblygu o'i gilydd. Ein nod oedd chwilio am yr edau oedd yn clymu'r darnau, yn y gobaith y bydd darllenwyr yn mwynhau'r dilyniant."

Meddai Tegwen Bruce-Deans: "Diolch i'n llenorion ifainc am lenwi'r casgliad hwn â golau. Dyma sêr bychain sy'n pefrio, bob un ohonynt yn eu hawl eu hunain. Ond wrth uno gyda'i gilydd, maen nhw'n llenwi'r noson â gobaith. Dyma ddyfodol ein llên yng Nghymru; pobl ifainc sy'n meiddio tynnu ar edau'r byd o'u cwmpas, a gweu clytwaith o frethynnau newydd. Os ydych am ddarganfod sut beth yw hi i fod yn berson ifanc yn y Gymru gyfoes, does dim angen i chi edrych pellach na'r clytwaith hwn."




"Ar ôl misoedd o waith cynllunio, braf yw cael cyhoeddi'r gyfrol gyfoes hon gyda chefnogaeth y Cyngor Llyfrau," meddai Llio Maddocks, Cyfarwyddwr Adran Eisteddfod yr Urdd a'r Celfyddydau. "Mae darluniau hyfryd Lleucu a'r ffordd mae'r golygyddion creadigol wedi ymdrin â'r cynnwys, wir yn dod a gwaith yr enillwyr yn fyw i'r darllenwr. Mae meithrin talent pobl ifanc wrth galon gwaith Eisteddfod yr Urdd, a dyma gyfrol sy'n arddangos talent y genhedlaeth nesaf o lenorion. Mynnwch gopi a mwynhewch!"

**Ifan Jones Evans *Nan a'r Sioe Fawr***
**Cyfres Roli Poli 48t. £5.99**




Mae pawb yn gwybod bod perthynas ffermwr â'i hoff gi defaid yn un werthfawr, ac yn sicr mae Nan a Defi yn ffrindiau pennaf. Yma, cawn hanes y ffermwr, ei gi defaid Nan, a Huw yr hwrdd wrth iddynt baratoi at Sioe Fawr Llanelwedd. Mae Ifan Jones Evans, y cyflwynydd teledu a radio hefyd yn ffermwr brwd ac mae hynny i'w weld yn y gofal a'r wybodaeth sydd ganddo er mwyn creu ei lyfr cyntaf i blant, Nel a'r Sioe Fawr.

Ast fach bwyllog ac ufudd sy'n wastad yn gwrando ar ei meistr yw Nan. Mae hi'n deall i'r dim faint mor bwysig yw ei braidd i Defi, yn enwedig ei ddefaid penfrith enwog. Mae Huw yr hwrdd, sydd wedi ei fagu fel oen swci, yn ffefryn yn wir, ond wrth i'r Sioe Fawr nesau, mae popeth yn mynd o chwith ac mae Nan yn ysu am gael mynd at wraidd pethau er mwyn codi calon Defi druan. Ond ydyn nhw am gyrraedd y sioe mewn pryd neu a yw breuddwydion ac uchelgeision pawb ar ben?

Mae'r llyfr hwn yn anrheg berffaith i feibion a merched sydd wedi eu magu ar y fferm ac sydd gyda Nan fach eu hunain ar yr aelwyd, ond hefyd yn gipolwg gwych i blentyn ar fywyd ar y fferm a'r paratoadau mawr at y Sioe Fawr, digwyddiad sydd mor bwysig ym mywyd amaethyddol Cymru.
**Llinos Griffin**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.






# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Pen-llwyn**
**Chwefror**

| | | |
|---|---|---|
| 18 | 2.00 | Dr. Watcyn James |
| 25 | 2.00 | Y Parchg Judith Morris |

**Mawrth**

| | | |
|---|---|---|
| 3 | 5.00 | Dr. Watcyn James |
| 10 | 10.00 | Parch Ifan Mason Davies |
| 17 | 5.00 | Dr. Watcyn James |
| 24 | 10.00 | Dr. Watcyn James |
| 29 | 10.00 | Oedfa Groglith yr Ofalaeth Capel Seion |
| 31 | 10.00 | Oedfa'r Pasg yr Ofalaeth, Capel y Garn |

**Ennill Gwobr**

Mae Ieuan Evans, Rhiwarthen Isaf – dyfeisiwr y Pwmp Slyri Clyfar – wedi ennill Gwobr y Peiriannydd Ifanc yn LAMMA 2024. Daeth y syniad am y Pwmp Slyri Clyfar, o 'oriau di-ri' yn gweithredu pwmp slyri a yrrir gan dractor ar fferm laeth ei deulu yn Rhiwarthen Isaf. Datblygodd brototeip fel rhan o ymchwil tuag at ei radd Meistr mewn peirianneg amaethyddol ym Mhrifysgol Harper Adams. Ar ôl graddio, cymerodd rôl fel rheolwr peirianneg a thechnoleg ar gyfer Storth Machinery, yn Sir Caerhirfryn lle parhaodd i ddatblygu'r pwmp. Mae'r Pwmp Slyri Clyfar yn system telemetreg sy'n monitro gwybodaeth allweddol o dractor a phwmp slyri umbilical a reolir o bell, ac yna yn trosglwyddo'r holl wybodaeth i yrrwr tractor sydd yn gwasgaru'r slyri hyd at 2km i ffwrdd. Trwy ddarparu mwy o wybodaeth i weithredwr y Pwmp Slyri Clyfar, mae'r system yn darparu nifer o fanteision ariannol ac amgylcheddol. Mae'r rhain yn cynnwys llai



o ofynion llafur, gwell defnydd o'r tractorau, economi tanwydd gwell i bob math o slyri sydd yn cael ei bwmpio, a monitro'r broses yn fwy manwl, i atal byrstio pibellau slyri neu ollyngiadau.

Meddai Ieuan: "Mae'n deimlad gwych cael fy nghydnabod o fewn y diwydiant. Aeth llawer o waith caled dros nifer o flynyddoedd i greu'r Pwmp Slyri Clyfar, ond mae'r daith wedi fy helpu i ddatblygu fy ngyrfa mewn cyfnod byr o amser"."Dechreuodd y prosiect yn ystod fy nghyfnod yn Harper Adams, lle gwnaed llawer o waith datblygu, cyn i'r gweddill cael ei ddatblygu mewn i brototeipiau cynnar yn ystod fy ngwaith yn Storth Machinery".

Dymunwn fel ardal longyfarch Ieuan yn fawr ar ei brosiect uchelgeisiol, da iawn yn wir a phob dymuniad da ymlaen i ti gyda'r gwaith pwysig yma.

**Adre o'r Ysbyty**

Da deall fod Mrs. Rita Jones, Coed Ladur, adre o'r ysbyty ar ol llawdriniaeth yn ddiweddar. Anfonwn ein dymuniadau da ati a hyderwn y bydd yn ol yn ein plith yn fuan iawn. Mae Rita yn brysur iawn fel Ysgrifennydd Merched y Wawr ac yn llenwi'r swydd bwysig hon i'r ymylon. Diolch am dechnoleg fodern sy'n ei galluogi i wneud y gwaith o'i sedd adre tra yn gorffwys y benglin. Cymerwch ofal a diolch am eich holl lafur trosom.

**Damwain**

Drwg iawn oedd clywed i Owain Pugh. Delfryn, gael damwain car yn ddiweddar a'i fod mewn ysbyty yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

**Yn ol yn yr ysbyty**

Ar hyn o bryd mae Mr. Sid Clench Poplars, a Mr. John Howells, Pencoed nôl yn Ysbyty Bron-glais ar ôl treulio ychydig wythnosau adref yn eu cynefin. Gobeithio y byddant eu dau yn teimlo yn well gyda hyn, dymunwn y gorau iddynt eu dau.

**Croeso adre**

Da iawn oedd gweld Llŷr Evans, Pwllcenawon wedi dychwelyd o'i antur yn Seland Newydd. Treuliodd bron 4 mis yno a mwynhau pob munud. Roedd Mam a Dad yn gweld ei eisiau dros y Nadolig gan fod Alaw, chwaer Llŷr ar yr un antur. a'r tŷ yn wag hebddynt. Efallai y cawn ychydig o'r hanes gan Llŷr yn y rhifyn nesaf. Croeso cynnes nôl adre i Ben-llwyn.

**Capel Pen-llwyn**

Roedd dydd Sul 28ain o Ionawr yn Sul yr Ofalaeth ym Mhen-llwyn. Hyfryd oedd cael croesawu aelodau o wahanol eglwysi i'n addoldy bach ni yma. Roedd y gwasanaeth dan ofal ein Gweinidog, Dr. Watcyn James, gyda Miss Delyth Davies yn cyfeilio. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan nifer o aelodau'r ofalaeth a chawsom wasanaeth bendithiol iawn gyda'r testun yn dod o Salm 85. gyda'r geiriau "Adfer ni eto O Dduw ein hiachawdwriaeth" yn tynnu ein sylw ac yn weddi i bob un ohonom ninnau. Cafwyd paned ac amser i gymdeithasu yn y festri ar ddiwedd y gwasanaeth.

Gwnaed casgliad o £80 at uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais. Diolch i bob un am eu cyfraniadau hael i'r achos teilwng hwn a diolch i'n Gweinidog am ei wasanaeth.

**Merched y Wawr – Cangen Melindwr**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2024 ar ddydd Mawrth, 9fed Ionawr a hynny drwy ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Croesawyd yr aelodau yno gan Beti Daniel, ein llywydd. Dymunwyd yn dda i Rita Jones ein hysgrifenyddes yn dilyn ei llawdriniaeth yn ystod y dyddiau blaenorol.

Fe'n harweiniwyd o amgylch yr adeilad gan Daniel a chlywsom ganddo hanes sefydlu'r Llyfrgell a sut y dylanwadodd Syr John Williams ar y penderfyniad o'i lleoli yn Aberystwyth. Ymwelwyd â rhannau o'r Llyfrgell nad sydd fel arfer yn agored i ddarllenwyr. Cawsom syniad am rai o'r pethau sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni. Diddorol oedd clywed am y modd y datblygwyd yr adeilad dros y blynyddoedd.



Cafwyd cyfle i ymweld ag Arddangosfa Cyfoes yn Oriel Gregynog

lle mae detholiad o weithiau celf o gasgliad y Llyfrgell o 1945 hyd at y presennol yn cael eu harddangos ar hyn o bryd. Diolchwyd i Daniel a Llinos am ein harwain drwy'r Llyfrgell gan ein goleuo ynglŷn â'r hyn a geir o fewn yr adeilad, gan Beti Daniel. Ar ddiwedd y prynhawn ymwelodd yr aelodau â chaffi Pen Dinas lle cafwyd cyfle i gymdeithasu a mwynhau cwpanaid a chacen. Yn y llun gwelir yr aelodau a Daniel yn sefyll o flaen un o'r lluniau, sef 'Goleuni yn yr Haul' gan Lisa Eurgain Taylor.

# CYLCH MEITHRIN PEN-LLWYN

Rydym wedi bod yn brysur yn creu a pharatoi bwyd i'r adar gan gymryd rhan yng nghynllun gwylio adar yr RSPB. Mae'r plant wedi bod wrth eu bodd yn sylwi a chofnodi pa adar sy'n dod i fwyta'r bwyd ac ymweld â'n safle yn ysgol yr hanner tymor. Estynnwn groeso mawr i Thomas sydd wedi ymuno â'r Cylch.





# Y Borth

**Cynhyrchydd lleol**
Roedd yn dda gweld enw Bethan Evans, Glanwern fel cynhyrchydd cyfres Jess ar S4C.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir â theulu Elidir ar farwolaeth eu chwaer Betty oedd yn byw yn yr Amwythig.

**Newyddion Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las**
**Adran Hŷn y Dynion**

Dathlwyd diwedd tymor prysur ar gyfer Adran Hŷn y dynion gyda chinio Nadolig ac adloniant gan Steve Salt a Howard Davies. Cyflwynwyd gwobrau i'r enillwyr canlynol:

Tlws Adran Hŷn - Rob Clarke
Cwpan Feterans - Roy Jones
Cwpan Haf - Alan Shaw
Cwpan Gaeaf - Martin Harries
Salfer Phillip Morgan - Athole Marshall

**Adran y Menywod**
Cystadleuaeth y Daily Mail
Llongyfarchiadau i Anne Morris & Barbara Flanagan am ennill cystadleuaeth parau'r *Daily Mail.* Pob lwc i'r ddwy wrth iddyn nhw gynrychioli'r clwb yn rownd nesa'r gystadleuaeth.

Santes Dwynwen
Dathlwyd Dydd Santes Dwynwen gyda swper arbennig a chanu hwyliog yn y clwb ar nos Wener 26 Ionawr. Drannoeth, ar fore Sadwrn 27 Ionawr, cafwyd cystadleuaeth parau Santes Dwynwen gyda'r chwarae yn dilyn rheolau Greensome. Roedd wyth pâr yn y gystadleuaeth at ei gilydd, yn cynnwys rhai o'n haelodau sydd yn newydd ddyfodiaid i'r gêm.

Enillwyr
1af Karen Evans & Karen Stones
2ail Jane Raw Rees & Ruth Jones
3ydd Mair Jenkins & Barbara Flanagan

# Goginan

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Elen a Arthur Williams, Penrhiwlas ar farwolaeth sydyn Isabel, gwraig eu cefnder Edward yn Basingstoke


*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*
**Gwefan Cymuned Trefeurig**
**trefeurig.cymru**
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website Trefeurig8
whhowells@gmail.com




SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r MRCPod

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Yn ardal Dyffryn Castell, i'r gogledd-ddwyrain o Bonterwyd, ceir clwstwr o enwau lleoedd sy'n cynnwys y gair *buches*. Saif lluest *Fuches-gau* (SN766808) ar lan *Nant Fuches-gau*, un o lednentydd afon Castell. Ychydig i'r dwyrain, mae lluest arall o'r enw *Cefnfuches* (SN777811), neu *Fuches Nant y Meirch* fel y cai ei hadnabod yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.  Ac wrth war *Cefnfuches* mae mynydd *Fuches Wen* (SN778807) lle tardda *Nant Fuches Wen*. Ymddengys bod lluest yn gysylltiedig â'r mynydd hwnnw hefyd ar un adeg gan fod un o weithredoedd Cwrt-mawr (rhif 243, dyddiedig 1 Awst 1606) yn sôn am *lle llyest y vychess wen*.




**Map 6" yr Arolwg Ordnans, Ceredigion VIII SW (1886)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Does dim angen teithio ymhell i ganfod enghreifftiau pellach: tyddyn *Cefnfuches* a mynydd o'r un enw ger Castell Bwa Drain, Ystumtuen; *Fuches*, neu *Buches Filwyn* yn wreiddiol, ar lan Nant Milwyn, i'r de o Gwmystwyth; ac yng ngogledd y sir, *Fuches-goch* wrth war pentref Taliesin, a *Ffald y Fuches Wen*, ar dir Nant-y-moch, islaw Pumlumon.

Cyfuniad yw *buches* o'r elfen *buch* yn golygu 'buwch' neu 'wartheg' a'r terfyniad *-es* yn dynodi enw torfol (fel *branes* 'haid o frain' neu *dafates* 'diadell o ddefaid'). Ystyr wreiddiol y gair oedd 'gyr o wartheg', ac mewn gwirionedd, dyna'r ystyr sydd fwyaf cyffredin heddiw pan sonnir am *fuches odro*, *buches sugno*, ac ati. O'r ystyr gyfarwydd honno, datblygodd ail ystyr sef 'corlan neu loc ar gyfer godro gwartheg'. Mae lle i gredu mai corlan wedi ei lleoli gryn bellter o'r ffermdy ei hun oedd hon, ac un fyddai'n arbed gorfod dod â'r gwartheg yr holl ffordd yn ôl o'u porfeydd haf i'r fferm i'w godro.

Yr ail ystyr hon o 'gorlan ar gyfer godro' sydd fwyaf addas mewn enwau lleoedd. Tebyg felly bod *Fuches-gau* yn golygu corlan odro ac ynddi geudod neu bant, a *Buches Nant y Meirch* yn gorlan odro wedi ei lleoli ar lan *Nant y Meirch*. Serch hynny, mae'r enwau *Lluest y Fuches Wen* a *Ffald y Fuches Wen* yn fwy amwys eu hystyr am y gallent fod yn gyfeiriadau at yrroedd y wartheg gwynion. Ymddengys nad oedd buchesi o'r fath yn ddieithr yn yr ardal o gofio bod y chwedl a gysylltir â Moel y Llyn, Cwm Ceulan, yn adrodd i arglwyddes y llyn ddod â gyr o wartheg gwynion gyda hi yn waddol briodas.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth 3/02/2024**
1366. Gwerthwyd y cyfan. Masnachu tymhorol mawr gyda llawer o ?? bach ar werth.

Roedd galw am famogiaid a hyrddod cwlio.  Greodd fasnachu da gyda prynwr am bob teip. Y lleiaf yr ŵyn y cyflymaf y gwerthiant yn enwedig yr ŵyn hyrddod.

Roedd y prisiau a'r amcangyfrifoedd arbennig fel a ganlyn:

Mamogiaid magu (593) Amcg £79.10. Mwy £150 gan Williams, Penrhos, Tal-y-bont, gyda llawer o rai eraill dros £120.

Hyrddod (94) Amcg £92.80. Mwy £140 gan Jones, Maesbeidiog, Llangwyryfon. Llawer arall dros £115.

Mamogiaid cyfeb (35) Amcg £68. Mwy £110 gan Evans, Nantgwyn, Trisant. Ŵyn stôr (644) Amcg £73.80. Mwy £150 gan Watkin, Henllys, Tal-y-bont.

Diwrnod da yma eto a phrisiau yn arbennig yn dda fel yr uchod. Diolch am y gefnogaeth o bell ac agos.



**Diolch**
Dymuna Gwyneira, Wyn, Claire, Ifan a Myfi ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Dei John. Hefyd diolch i bawb a gyfrannodd  y swm o £610 tuag at Ward Dyfi West, Ysbyty Bron-glais er cof am Dei. Mae'n diolch ni hefyd i'r Parchg Lynn Rees am ei wasanaeth yn yr eglwys ac i Selwyn Evans am bob cymorth o drefnu'r angladd mor urddasol. Diolch i bawb.

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Croeso**
Mae Ioan Lord wedi dychwelyd i fyw yn Gellifach erbyn hyn. Croeso mawr i ti a dymuniadau gorau i Peter yn y bennod nesaf yn ei fywyd.

**Urdd y Gymuned**
Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yn Halfway yn ystod y mis. Daeth tri deg wyth o drigolion yr ardal ynghyd a chafwyd noson bleserus iawn. Roedd nifer o newydd ddyfodiaid wedi ymuno a hyfryd oedd cael eu croesawu i'r Gymuned. Cawsom bryd o fwyd blasus a digon o gyfle i gymdeithasu. Oherwydd y tywydd ni fu'r aelodau o amgylch yn canu carolau adeg y Nadolig felly penerfynwyd gwneud casgliad ar gyfer Banc bwyd Aberystwyth ar y noson. Casglwyd dros £200.00 , diolch i bawb am eu haelioni.

**Brysiwch wella**
Mae Ceredig Williams, Tyn wern, wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Mae adref erbyn hyn ac yn gwella yn dda. Dymuniadau gorau am adferiad llwyr. Dymuniadau gorau hefyd i John Lewis,  Dolgamlyn sydd yn mynd i dderbyn clun newydd ac i Jim Salvona, John Sambrook a Norma Stephens sydd wedi treulio peth amser yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

# Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch yn dathlu!



Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch 1954/5
Rhes ôl (o'r chwith): Hywel Williams, Danny Thomas, John Thomas, Ieuan Evans, Hywel James, Vernon Davies, Vernon Jones, Ken Evans, Dafydd Davies, Trefor Jones, William Jenkins, Gwyn Jones, Geraint Jones, Bob Williams.
Rhes ganol: John James, Wyn Davies, Gwynne Royle, David Jones, Harry Jones, Johnny Owen, D. J. Thomas, Johnnie Jones, Humphrey Roberts, Handel Morgan, Tom Davies, Wyn Thomas, Henry Davies, Fredrick Davies.
Rhes flaen: David Wyn Edwards, Ieuan Evans, Gwilym Jenkins, Marian Hughes, Margaret Jenkins, Elizabeth Royle, John Rees, Gwyneth Owen, Rosalind Edwards, Mair Jones, Judith Williams, Ieuan Evans (Ruel), David James.

Mae 2023/4 yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch wrth i ni ddathlu saith deg mlynedd er ei ffurfio. Fe'i sefydlwyd mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar nos Fercher, 14 Hydref 1953, gyda bron i hanner cant o bobl ifanc yr ardal yn bresennol. Fel pob clwb ry'n ni wedi profi sawl llanw a thrai dros y blynyddoedd, ond mae'n destun balchder ein bod ni'n dal i gwrdd yn wythnosol yn Nhal-y-bont saith degawd yn ddiweddarach, a bod y mudiad yn parhau i gynnig profiadau gwerthfawr i ieuenctid gogledd y sir.

Ar hyn o bryd, mae 'na brysurdeb mawr ymhlith yr aelodau a'r arweinyddion a ninnau'n paratoi'n ddiwyd at ein cinio dathlu mawreddog sydd i'w gynnal ar nos Sadwrn, 24 Chwefror, am 7.30yh, yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Bydd yr achlysur hwnnw'n gyfle i ni edrych nôl ar weithgarwch a llwyddiannau'r clwb dros y degawdau ac i hel atgofion yng nghwmni Elen Pen-cwm a chyfeillion eraill. Os am ymuno â ni i ddathlu, gellir archebu tocynnau (£27.50 y pen am bryd tri chwrs) drwy yrru neges destun i 07954 127251 cyn y dyddiad cau ar 19 Chwefror.

Ond peidiwch â phoeni os na fedrwch ddod! Bydd modd i chi ddilyn yr hanes ar ein tudalen facebook 'C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch: Dathliad 70' lle byddwn yn rhannu hen luniau a lle bydd cyfle i chithau gyfrannu'ch atgofion personol.



**Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch yn paratoi at y 'Gystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant' yn 2023.**

Ar 16 Ionawr aeth criw da ohonom ar ymweliad â Milfeddygfa Ystwyth. Buodd Kate yn dangos y theatr llawdriniaethau tra cawsom weld o amgylch y filfeddygfa gyda Phil. Diolch i'r ddau am noson ddiddorol iawn.



Ar 23 Ionawr daeth Anwen Tyngraig neu Ani-bendod atom i gynnal sesiwn greadigol i greu cynnyrch i ddathlu pen-blwydd y clwb. Bydd y nwyddau ar werth yn y cinio dathlu.



Cawsom noson hwyliog yn gwneud moctêls gyda Mair Nutting. Roeddent yn flasus iawn. Perffaith ar gyfer mis Ionawr sych!





# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Disgyblion Newydd**
Croeso cynnes iawn i'r disgyblion newydd sydd wedi ymuno gyda ni ym mis Ionawr. Rydym yn falch iawn fel ysgol ein bod yn tyfu mewn nifer, gyda'r ysgol bellach yn 103 o ddisgyblion.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i'n disgyblion Elena a Florence, fu'n cymryd rhan ym Mhantomeim y Wardens eleni. Braf oedd eich gweld ar lwyfan fel rhan o gast CInderella.

**Dysgu'r mis**
Rhestr testunau'r Urdd sydd wedi bod wrth wraidd ein cwricwlwm y tymor yma, gyda disgyblion yn frwdfrydig yn paratoi straeon a cherddi, gwaith celf, a gwaith TGCh yn seiliedig ar thema'r Urdd. Mi fyddant yn cyflwyno eu gwaith ar gyfer cystadlu yn yr Eisteddfod ysgol yn gyntaf. Mae disgyblion hefyd wrthi'n brysur yn ymarfer o gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn hwyrach yn y mis.

Mi wnaeth blwyddyn 5&6 ein tywys ni trwy gwasanaeth ysgol yn sôn am hanes diwrnod Martin Luther King gan ddangos i weddill yr ysgol ffrwyth eu hymchwil.

**Caerdydd**
Blwyddyn 5 a 6 a oedd ar dramp nesaf, yn mentro i'r brifddinas a Gwersyll yr Urdd Caerdydd yn gartref iddynt am ddwy noson. Cafodd disgyblion brofiad twrist yn y ddinas. Buont yn ymweld ag Amgueddfa Sain Ffagan, Stadiwm y Principality, Stiwdio y BBC, Ymweliad a'r Senedd, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Bowlio Deg a thaith ar gwch cyflym. Roedd disgyblion a staff wedi mwynhau mas draw, ond wedi blino'n dwll erbyn diwedd yr wythnos!

Buom yn ffodus iawn o dderbyn grant 'Ewch i Weld' gan Gyngor y Celfyddydau Cymru a ariannodd ein hymweliad â stiwdio's y BBC. Diolch i Stephen a Gwenllian am ein tywys ni. Mae'r ymweliad wedi ysbrydoli gwaith dosbarth ar ddarlledu!

Diolch hefyd i Huw, ŵyr Edwina Davies, Trefeurig am ein tywys o gwmpas adeilad y Senedd ac i'r AS Elin Jones am ddod i'n cyfarfod.

**Llangrannog**
Mi wnaeth Blwyddyn 3 a 4 mwynhau mas draw yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar ddechrau'r tymor, gyda nifer yn aros dros nos am y tro cyntaf. Mi wnaeth disgyblion fwynhau marchogaeth, saethyddiaeth, rhaffau uchel, nofio, dringo, cwadiau, a gwybgartio, trampolin! Braf oedd clywed am helyntion y criw wrth iddynt annerch gwasanaeth i'r ysgol gyfan amdano yn dilyn dychwelyd i'r ysgol. Mae disgyblion wedi mwynhau ysgrifennu ebyst i'r gwersyll i ddiolch iddynt am y profiad.

**Gala nofio**
Llongyfarchiadau i'r disgyblion fu'n cynrychioli'r ysgol yn y gala nofio. Da iawn i'r disgyblion a ddaeth i'r brig yn eu cystadlaethau.

**ABC Opera**
Yn manteisio ar gynnig Gwasanaeth Gerdd Ceredigion cafwyd cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 ddysgu a pherfformio can a'i recordio gyda chwmni ABC opera mewn ymgais i dorri record y byd. Edrychwn ymlaen at glywed y trac yn fuan iawn!

**Taith i'r Llyfrgell Genedlaethol**
Bu disgyblion dosbarth 3 yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol yn edrych ar waith celf artistiaid enwog o Gymru ac yn chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer eu gwaith Celf i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Roeddynt wedi mwynhau'r profiad mas draw, ac edrychwn ymlaen gweld cynnyrch y gwaith.





**Wythnos Adar RSPB**
Mae disgyblion dysgu sylfaen wedi bod yn cymryd rhan mewn ymgyrch adar yr ardd gan yr RSPB. Braf oedd eu gweld yn gweithio'n gwbwl annibynnol i greu bwydydd adar o ddeunyddiau naturiol, ac yn gwylio adar yng ngerddi'r ysgol.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
Byddwn yn agor am 5.30 yn ystod yr wythnos am yr ychydig fisoedd nesaf.
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Llangrannog**
Ar ddechrau'r mis buodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ar daith breswyl i Wersyll yr Urdd Llangrannog. Cafwyd amser gwych yn gwneud amryw o weithgareddau megis gwibgartio, beiciau cwad, marchogaeth a nofio. Cafwyd hwyl yn y Gweithgareddau nos cyn mynd i'r gwely yn enwedig yn y disgo. Er gwaetha'r diffyg cwsg ar ôl yr holl losin a gafodd ei fwyta ganol nos – cafodd pawb amser arbennig.

**Caerdydd**
Buodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 hefyd ar daith preswyl yn ystod y mis wrth ymweld â Gwersyll yr Urdd Caerdydd. Er gwaetha'r siwrne hir a'r tywydd gwlyb, cafwyd trip i'w gofio. Cafwyd gwledd o weithgareddau gan gynnwys taith cwch cyflym, ymweliad â'r Senedd, ymweliad â'r BBC, bowlio deg ac uchafbwynt y trip i nifer – taith o amgylch Stadiwm y Principality.

**Gala nofio**
Cynhelir gala nofio cylch Aberystwyth ar ddechrau mis Ionawr gyda nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan. Cafwyd bore llwyddiannus iawn yn y pwll gyda tîm cyfnewid merched Blwyddyn 5 yn ail yn y ras cyfnewid rhydd ac yn drydydd yn y ras cyfnewid amrywiol. Cafwyd perfformiadau cryf iawn gan sawl unigolyn o'r ysgol gan gynnwys Ava-May Dowse a oedd yn rhan o'r ddau dîm.

**ABC Opera**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 gyfle i fod yn rhan o'r gweithdy ABC Opera yn y Neuadd Fawr. Dyma Anwen Ingram o flwyddyn 6 yn esbonio mwy – " Aeth



disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i'r Neuadd Fawr i recordio cân gyda holl ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 ysgolion y Sir. Mae nhw yn ceisio torri'r record wrth gael y nifer mwyaf o ddisgyblion i ganu cân efo'i gilydd. Roedd yn brofiad anhygoel".

**Prosiect STEM Royal Society**
Mae disgyblion CA2 wedi dechrau gweithio ar brosiect STEM efo Tally Roberts a Patricia Shaw o Brifysgol Aberystwyth. Pwrpas y prosiect yw i dyfu a monitro planhigion yn tyfu yn y polytunnel gan ddefnyddio sgiliau codio a microbits. Mae'r plant yn gyffrous iawn.

**Dewch i ddathlu gyda ni**
Dathlwch Gwŷl Ddewi gyda Chawl a Thwmpath yn Neuadd Capel Bangor ar nos Wener Mawrth 1af o 6yh ymlaen. Pryd o gawl traddodiadol, a 'Thwmpath Aberystwyth' yn ein tywys trwy'r dawnsio. £ 6 y pen neu £18 y teulu. Yr holl elw yn mynd i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pen-llwyn. Tocynnau ar gael o'r ysgol ar gais trwy ebostio prif@penllwyn.ceredigion.sch.uk. Croeso cynnes i bob un!"

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED





COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Ysgol **Craig yr Wylfa**













## YSGOL IACH

**Gala Nofio**

Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio i ysgolion Cylch Aberystwyth. Aeth tîm o'r ysgol i gystadlu unwaith eto eleni, ac fe gafwyd sawl perfformiad arbennig o dda. Da iawn chi gyd am gystadlu mor frwd yn erbyn ysgolion eraill yr ardal a llongyfarchiadau mawr am yr ymdrech.

## SIARTER IAITH

**Gwersyll yr Urdd, Llangrannog.**

Mae'r ysgol yn credu'n gryf bod mynd i aros dros nos yn un o wersylloedd yr Urdd yn brofiad hollbwysig yn ein darpariaeth. Ers rhai blynyddoedd bellach rydym wedi trefnu gwibdaith i Wersyll yr Urdd Llangrannog yn ystod mis Ionawr. Unwaith eto eleni mentrodd criw Blwyddyn 3 a 4 ar y siwrne!
Roedd pawb yn gyffrous iawn cyn dechrau ac fe barhaodd y cyffro dros yr holl amser yno. Diolch yn fawr i staff y Gwersyll am ofalu amdanom a diolch o galon i Miss Griffiths am bob cymorth ar y daith.

Roedd hi'n hyfryd i gael cwrdd gyda disgyblion o ysgolion eraill yng Ngheredigion a gwneud ffrindiau gyda phlant Ysgol Tal-y-bont fel rhan o'n cynllun Pont yr Wylfa.

**Ymwelydd anghyffredin**

Roedd y plant wrth eu boddau gydag ymweliad rhywun pwysig iawn yn ystod mis Ionawr. Daeth neb llai na Mr Urdd ei hun atom i ddweud "Helo"! Roedd hi'n hyfryd i weld wynebau'r plant, ac yn dawel bach, roedd yr athrawon wedi mwynhau hefyd. Dyma beth oedd digwyddiad cyffrous.
Diolch yn fawr Mr Urdd – gobeithio gweld chi eto'n fuan yn ysgol Craig yr Wylfa.

## YSGOL GREADIGOL

**Côr Cymru**

Hefyd yn ystod Diwrnod Santes Dwynwen, cafodd Dosbarth Braich Garw gyfle unigryw i ymuno gyda channoedd o blant o ysgolion ar draws Ceredigion yn y Neuadd Fawr i fod yn rhan o gôr plant Cymru. Bwriad y côr yw rhyddhau sengl newydd i fynd allan ar Fawrth y 1af. Mae holl Siroedd Cymru yn cael y cyfle i gyd-ganu a gobeithio creu record byd am y nifer mwyaf mewn côr erioed! Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at glywed y gan gyfan cyn bo hir. 'Pawb i Ganu'n Un' dan arweiniad y cwmni ABC of Opera.

**Gwersi Offerynnol**

I barhau gyda'r thema cerddorol rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael Miss Helen yn dod i'r ysgol i gyflwyno gwersi offerynnol i Ddosbarth CA2. Mae'r plant wedi bod werth eu boddau'n cadw rhythmau gwahanol a chwythu'r offeryn pBuzz i ganeuon adnabyddus.

## YSGOL Y GOEDWIG

Glaw neu hindda, bydd plant



yr ysgol yn cael gwersi Ysgol y Goedwig yn ein llecyn hyfryd. Mae'r plant wrth eu boddau'n defnyddio eu dychymyg i greu ac i arbrofi. Fel rhan o'r gwersi yn ystod mis Ionawr, croesawyd Clarissa o Goetir Anian i atgyfnerthu gwybodaeth y disgyblion am gylch bywyd y dderwen. Rydym yn edrych ymlaen at ymweld â chi eto'n fuan.

# Ysgol **Rhydypennau**

**Llangrannog**
Ar fore'r 23ain o Ionawr, fe deithiodd plant blwyddyn 3 a 4 i wersyll yr Urdd, Llangrannog am ddau ddiwrnod o ddifyrrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys gwibgartio, marchogaeth, saethyddiaeth a nofio. Dychwelodd y plant i'r ysgol wedi blino'n lân ond wedi mwynhau profiadau'r gwersyll yn fawr iawn.

**Gweithgareddau**
Cafodd plant blwyddyn 6 gyfle i fod yn rhan o gôr arbennig yn ddiweddar. Yn dilyn ymarferiadau yn yr ysgol, yn y Neuadd Fawr ac wrth ymuno arlein â miloedd o blant eraill mewn ysgolion ar draws Cymru, fe recordiwyd cân arbennig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mi fydd clip o'r plant yn perfformio'r gân yn ymddangos ar sgrîn fawr Stadiwm y Principality maes o law.

Buom yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen yn yr ysgol ar y pumed ar hugain o Ionawr. Mi fuodd y plant yn brysur yn gwrando ar hanes y chwedl a chreu cardiau i ddathlu'r achlysur.

Tro plant blwyddyn 3 oedd hi i gynnal stondin cacennau yr ysgol y mis hwn; ar ôl y prynu, y gwerthu a'r bwyta awchus, codwyd £137! Campus!

Gyda'r tywydd yn dechrau gwella, aeth plant blwyddyn 1 a 2 am dro i lawr at yr orsaf ar waelod y pentref a nôl i fyny at afon Ceiro gan nodi yr adeiladau a'r busnesau sydd yn rhan o gymuned y pentref ar hyd y ffordd.

**Chwaraeon**
Da iawn i'r tîm nofio am gystadlu mor wych yng ngala cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am ddod yn y tri cyntaf - tîm cyfnewid Bechgyn blwyddyn 6 sef Iestyn Evans, Wil Jones, Morgan Payne a Finnley James Chandler; Tîm cyfnewid Merched blwyddyn 5 sef Leisi Myrddin, Megan Davies, Amelia Scarrott, Mali Lennon. Tîm Cyfnewid Bechgyn blwyddyn 3 a 4 Caden Watkins, Beau Davies, Charlie Bates, Leonardo Corbisiero a thîm cyfnewid Merched blwyddyn 3 a 4 sef Cadi Mitchell, Carian Evans, Elinor Jenkins ac Alys James. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am ddod yn y tri cyntaf yn rasus unigol y gala; Morgan Payne, Wil Jones, James Scarrott, Harri Worgan, Caden Watkins a Beau Davies. Ardderchog!

Pob hwyl i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod gylch ar yr 22ain o Chwefror. Mae'r plant wedi bod wrthi'n ddiwyd yn ymarfer mewn amryw o gystadlaethau ac yn edrych ymlaen i berfformio.

**Hysbys**
Cyngerdd 'byr' – "Pigion yr Eisteddfod" gan blant Ysgol Rhydypennau. Lleoliad: Neuadd Pentref Rhydypennau 15fed Mawrth am 6:00yh, gyda 'Bingo' i ddilyn am 6:30yh. Croeso cynnes iawn i bawb.

<u>Clwb Cant</u>
Dyma ganlyniad Ionawr
1af - £25-Simone Belshaw
2il - £15-Pip Nicholas-Davies
3ydd-£10-Harri Parr-Davies



Ymarfer côr yn y Neuadd Fawr.




Tîm nofio'r ysgol.



Dathlu Santes Dwynwen





Taith gerdded o gwmpas y pentref.


# Tasg y Tincer

Diolch i Math a Celt, Bont-goch; Elsi Wynn, Capel Bangor a Jack Herron, Bow Street am anfon eich lluniau ata i yn ystod y mis diwethaf. Roedden nhw'n arbennig! Daliwch ati, bawb – mae gwobr hyfryd i'r enillydd.

Dy enw di, Jac, ddaeth o'r het yn gyntaf y tro hwn. Hwrê!


Jac

Gwelaf o'r Tincer diwetha fod rhai ohonoch chi wedi bod yn hel calennig ar Ddydd Calan. Da iawn chi. Ond nid pawb sy'n dathlu ar 1 Ionawr. Yn China, maen nhw wrthi'n dathlu eu Blwyddyn Newydd ar hyn o bryd – gan orffen ar 15 Chwefror. Mae'n ddigwyddiad pwysig iawn yn China ac mewn sawl gwlad arall, gan gynnwys Cymru, lle mae 'na bobl Chineaidd yn byw. Byddan nhw'n gwledda ac yn cael gŵyl lanterni a thân gwyllt. Mae gan bob blwyddyn anifail arbennig, a Blwyddyn y Ddraig yw 2024. Symbol o ddewrder a lwc dda yw'r ddraig – fel ein draig goch ni, wrth gwrs! Beth am liwio'r cylch sy'n dangos holl arwyddion y flwyddyn Chineaidd? Beth am edrych ar y we am eich 'anifail chi, sef y flwyddyn gawsoch chi eich geni? Mwnci yw fy un i!



| | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Cyfeiriad** | |
| **Ysgol** | |
| **Rhif ffôn** | **Oed** |

Ac wrth gwrs, mae gennym ni ŵyl bwysig iawn i'w dathlu ar 1 Mawrth, on'd oes? Cofiwch wisgo'ch cenhinen yn falch ar Ddydd Gŵyl Dewi. Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Mawrth. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 466 | Chwefror 2024*